
# Llais Ardudwy

70c

RHIF 498 - MAI 2020





# YMDDEOLIAD HAPUS



Dymunwn ymddeoliad hapus i Dewi Thomas neu Dewi Deutz fel mae'n cael ei adnabod yn ei ardal, wedi 40 mlynedd o wasanaeth i'r byd amaethyddol fel peiriannwr a gwerthwr peiriannau amaethyddol a thractorau yn ei leoliad presennol.
Yn frodor o Bronyfoel Uchaf, Dyffryn Ardudwy, cychwynnodd ei yrfa fel prentis yn Pugh's Dolgellau cyn symud i Lanbedr i weithio i'r diweddar annwyl Russell Hughes yn Garej Llanbedr. Mentrodd ar ei liwt ei hun gan sefydlu ei fusnes yn wreiddiol ym Maes Ysgawen, Dyffryn Ardudwy cyn symud a phrynu uned yn ei leoliad presennol.
Mae ei wasanaeth i'w ardal wedi bod yn amhrisiadwy a diolchwn iddo am ei gymorth peirianyddol parod bob amser. Mae'n llwyr haeddu ei ymddeoliad. Dymunwn pob hapusrwydd ac iechyd iddo a dymunwn hefyd wellhad buan i'w gymar Pat sydd wedi bod yn dioddef yn ddiweddar ond erbyn hyn wedi dod adref ac yn gwella pob dydd.
Erbyn hyn mae William Ellis o ardal Dolgellau wedi cymryd y fenter, yn beiriannydd clodwiw gyda blynyddoedd o brofiad o weithio yn y maes dros y byd i gyd. Mae'r ardal yn eithriadol o ffodus o weld busnes llwyddiannus Dewi yn parhau mewn dwylo diogel iawn.
Dymuniadau gorau i Dewi ac i'w olynydd Wil.

# FFORDD PEN LLECH YN COLLI EI STATWS



**Stryd Baldwin**



**Ffordd Pen Llech**

Yr haf diwethaf roedd pobl Harlech yn dathlu mai ganddyn nhw yr oedd stryd fwyaf serth y byd ond yn ddiweddar maen nhw wedi eu siomi o glywed bod Baldwin Street yn Dunedin wedi adennill y record, ar ôl perswadio Guinness i ddiweddaru'r rheolau ar fesur strydoedd serth.
Roedd Gwyn Headley, a arweiniodd ymgyrch Harlech i hawlio'r teitl i Ffordd Pen Llech, yn barod i longyfarch pobl Dunedin ond roedd yn flin bod Guinness wedi penderfynu dyfarnu o blaid Dunedin cyn rhoi cyfle i bobl Harlech ddadlau eu hachos.
Meddai Gwyn, 'Rydym yn siomedig bod *Guinness World Records* wedi rhoi llai na 24 awr o rybudd inni o'r newid yn eu rheoliadau, a bod y dyfarniad eisoes wedi'i roi i Dunedin cyn rhoi gwybod i Harlech a rhoi cyfle inni gystadlu am y record o dan yr amodau a'r telerau newydd.'
Rhaid i ninnau nodi bod y datganiad i'r wasg yn darllen yn od. Dyma ddywedodd Craig Glenday, prif olygydd Guinness World Records: 'Rydym yn ddiolchgar iawn i dîm apeliadau Baldwin Street, dan arweiniad y syrfëwr Toby Stoff, am ein gwneud yn ymwybodol o fwlch prin yn ein hamodau, ac rydyn ni yn falch o weld y teitl yn dychwelyd i Seland Newydd.' Mae'r cymal olaf yn darllen yn od - dim gair am gydymdeimlo â phobl Harlech!
I fod yn gymwys ar gyfer y teitl, rhaid i'r stryd fod ar ddefnydd gan y cyhoedd ac y mae'n rhaid gallu gyrru cerbydau ar ei thraws. Hwyrach nad dyma yw diwedd y frwydr - fe gawn ni weld!

# GWOBR GYNTAF



Llongyfarchiadau i Jenna O'Brien, Clogwyn Melyn, Ynys, Talsarnau am gipio'r lle cyntaf mewn cystadleuaeth genedlaethol yn ddiweddar, gan greu argraff ar grŵp o feirniaid arbenigol gyda'i safiad ar dwristiaeth gynaliadwy. Mae'n fyfyriwr Teithio a Thwristiaeth yng Ngholeg Menai. Broliodd ei syniad ar gyfer busnes twristiaeth gynaliadwy yn ei hardal leol drwy gynhyrchu fideo ac ysgrifennu darn i gyd-fynd ag ef, ac yna fe'i hystyriwyd gan ddim llai na 10 unigolyn proffesiynol o sefydliadau megis Bluestone Wales, Gerddi Botaneg Cymru, BITC Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri.
Dymuniadau gorau iti Jenna.

# GOLYGYDDION

**1. Phil Mostert**
Bryn Awel, Ffordd Uchaf,
Harlech 01766 780635
pmostert56@gmail.com

**2. Anwen Roberts**
Craig y Nos, Llandecwyn
01766 772960
anwen15cynos@gmail.com

**3. Haf Meredydd**
**Newyddion/erthyglau i:**
hmeredydd21@gmail.com
07760 283024 / 01766 780541

# SWYDDOGION

**Cadeirydd:**
Hefina Griffith 01766 780759
**Trefnydd Hysbysebion**
Ann Lewis 01341 241297
Min y Môr, Llandanwg
ann.cath.lewis@gmail.com
**Trysorydd**
Iolyn Jones 01341 241391
Tyddyn y Llidiart, Llanbedr
Gwynedd LL45 2NA
llaisardudwy@outlook.com
**Ysgrifennydd**
Iwan Morus Lewis 01341 241297
Min y Môr, Llandanwg
iwan.mor.lewis@gmail.com
**CASGLWYR NEWYDDION LLEOL**
**Y Bermo**
Grace Williams 01341 280788
David Jones 01341 280436
**Dyffryn Ardudwy**
Gwennie Roberts 01341 247408
Susan Groom 01341 247487
**Llanbedr**
Gweneira Jones 01341 241229
Susanne Davies 01341 241523
**Llanfair a Llandanwg**
Hefina Griffith 01766 780759
Bet Roberts 01766 780344
**Harlech**
Edwina Evans 01766 780789
Ceri Griffith 07748 692170
Carol O'Neill 01766 780189
**Talsarnau**
Gwenda Griffiths 01766 771238
Anwen Roberts 01766 772960
**Cysodwr y mis**: Phil Mostert

Gosodir y rhifyn nesaf ar Mai 29 am 5.00. Bydd ar werth ar Mehefin 3. Newyddion i law Haf Meredydd cyn gynted â phosib ac erbyn Mai 25 fan bellaf os gwelwch yn dda. Cedwir yr hawl i docio erthyglau. Nid yw golygyddion Llais Ardudwy o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir yn y papur hwn. 'Rhydd i bawb ei farn ac i bob barn ei llafar.'

Dilynwch ni ar *Facebook*
**@llaisardudwy**

# HOLI HWN A'R LLALL



**Enw:** Carys Law
**Gwaith:** Cyfarwyddwr Gwerthu ym maes ymgynghoriaeth adnoddau dynol.
**Cefndir:** Cefais fy ngeni yn Hwlffordd, Sir Benfro. O safbwynt addysg, Ysgol Gynradd Penfro i ddechrau cyn ymuno ag Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy ar ôl i'r teulu symud i Dal-y-bont yn 1975. Dwi'n ferch i Raymond a Barbara Owen. Derbyniais fy addysg uwchradd yn Ysgol Ardudwy Harlech cyn dilyn cwrs addysg uwch yn Swydd Stafford. Erbyn hyn, dwi'n byw yn Cobham, Surrey, gyda fy ngŵr Pat a'r teulu.
**Sut ydych chi'n cadw'n iach?**
Adref, rwy'n hoff o ddefnyddio'r hyfforddwr croes (*crosstrainer*) a rhywfaint o ymarferion gyda phwysau hefyd. Mi fyddai'n mynd i redeg bob hyn a hyn, pan fydd yr hwyl. Buasai'n gwneud lles i mi wneud mwy mae'n siŵr!
**Beth ydych chi'n ei ddarllen?**
Ar hyn o bryd, mae tri llyfr ar waith, sef **"Grown Ups"** gan Marian Keyes, **"War Doctor"** gan David Nott, meddyg a gafodd ei fagu yn Nhrelech, Sir Gaerfyrddin a **"On Chapel Sands"** gan Laura Cumming.
**Hoff raglen ar y radio neu'r teledu?**
Dwi'n hoff iawn o raglenni dogfen, megis *"24 Hours in A & E"*, *"24 hours in Police Custody"* ac yn y blaen.
**Ydych chi'n bwyta'n dda?**
Ydw (dwi'n meddwl!). Da ni'n ceisio cadw at fwydlen eitha iach a chytbwys gyda digon a lysiau a ffrwythau. Mae gan y gŵr randir sydd yn sicrhau cyflenwad o fwyd maethlon, yn enwedig yn ystod tymhorau'r haf a'r hydref. Os lwcus, bydd ambell lysieuyn o'r rhandir yn cael ei weini Dydd 'Dolig!
Hoff fwyd?
Dwi'n mwynhau bwyd speislyd, yn enwedig o Wlad Tai.
**Hoff ddiod?**
Gwin, Prosecco a phaned o goffi da! Ddim gyda'i gilydd wrth gwrs!
**Pwy fuasai'n cael dod allan i fwyta efo chi?**
Y teulu i gyd. Mam, Dad a fy mrawd a'i deulu.
**Lle sydd orau gennych?**
Does unman gwell na Thal-y-bont!
**Ble cawsoch chi'r gwyliau gorau?**
Dwi'n ddigon lwcus o fod wedi cael nifer o wyliau hyfryd gyda'r teulu ond yr un mwya' cofiadwy efalla, oedd gwyliau yn Kenya gyda'r gŵr rhai blynyddoedd yn ôl. Roedd y gwyliau yn cynnwys saffari a deifio sgwba. Wna i byth anghofio.
**Beth sy'n eich gwylltio?**
Anghwrteisi.
**Beth yw eich hoff rinwedd mewn ffrind?**
Hwyl, hiwmor a gonestrwydd.
**Pwy yw eich arwr?**
Nid oes gennyf un arwr yn arbennig ond ar hyn o bryd mae'n rhaid edmygu gweithwyr y gwasanaeth iechyd a'r holl ofalwyr sy'n gweithio mor galed mewn amgylchiadau heriol er mwyn cadw ni i gyd yn ddiogel.
**Pwy ydych chi'n ei edmygu yn yr ardal hon?**
Anodd enwi unigolyn, ond mae'r gymuned leol yn un garedig dros ben a chan bo fi'n byw mor bell i ffwrdd o'm rhieni, mi rydw i'n hynod ddiolchgar i'r ffrindie a chymdogion sy'n helpu Mam a Dad yn ystod yr argyfwng yma. Gan for rhaid iddynt aros adre, cysur yw gwybod fod yr anghenion dyddiol yn eu cyrraedd. Mae'r cymdogion a'r ffrindiau yma werth y byd.
**Beth yw eich bai mwyaf?**
Tueddu i fod yn ddiamynedd ar adegau!
**Beth yw eich syniad o hapusrwydd?**
Amser gyda'r teulu. Ni i gyd gyda'n gilydd
**Beth fuasech chi yn ei wneud efo £5000?**
Gwylie i'r teulu.
**Eich hoff liw?**
Glas. Dim syniad pam!
**Eich hoff flodyn?**
Rhosyn.
**Eich hoff gerddor?**
Dwi'n hoffi pob math o gerddoriaeth, clasurol a modern a dwi'n gwrando ar lawer o wahanol gerddorion.
**Eich hoff ddarn[au] o gerddoriaeth?**
Mae 'na restr faith o gerddoriaeth dwi wedi mwynhau dros y blynyddoedd. Rhestr rhy hir i'w nodi fan hyn!
**Pa dalent hoffech chi ei chael?**
Llais canu da!
**Eich hoff ddywediadau?**
Cyfieithad o ddywediad Saesneg:
"Mae casáu fel yfed gwenwyn a disgwyl i'r person arall farw." Dwi ddim yn siŵr o lle daeth y dywediad, ond mae'n wir. Maddeuant a charedigrywdd sy'n bwysig.
**Sut buasech chi'n disgrifio eich hun ar hyn o bryd?**
Lwcus, hapus ac yn gobeithio bydd teulu a ffrindau yn saff ac yn iach ar ddiwedd y pandemig yma.

## ANWELEDIG ARWYR

Ein hanweledig arwyr
Yn ddiwyd maent yn awr,
Bob awr yn rhoi o'u gofal -
Yn rhannu cariad mawr.

Y rhain sy'n rhannu'n dawel
Gan roi eu hun yn llwyr,
Eu colli wna pawb adre'
Nes dôn nhw mewn yn hwyr.

'Di blino ac yn llwgu,
Does eiriau na all ddweud,
Eu plant a'u teulu'n poeni -
Does dim a allant wneud.

'Mond aros am yr amser
Pan yr ânt hwythau'n sâl,
Gobeithio am y gorau –
Dim PPE ar ga'l.

A 'mond *rhai* nas cyffyrddir
Gan lwybr gwae y pla,
Cwympo wnaiff y gweddill
Wrth draed ei fud draha.

Fe rônt eu bywyd inni,
'S dim aberth mwy i'w gael,
Fel Un a wnaeth i ninnau,
Ei roi, a'i roi mor hael.

**Delyth Gwyn**
Cyn-athrawes babanod
Ysgol Talsarnau

# BAND ARALL YN YNYSU'N GYMDEITHASOL

Â'n gig olaf yn teimlo fel oesoedd yn ôl a ninnau'n hiraethu am gael dod at ein gilydd am sesiwn, roedd raid i ni feddwl am ffordd. Beth am ddod at ein gilydd ynghanol rhyw goedwig gudd yn rhywle ganol nos pan mae'r plismyn yn cysgu? Ond, arhoswch, na, fuasai hynny ddim yn gweithio gan fod Siwan ym Mhatagonia ac mi fysa rhy bell iddi ddod.
Be ar y ddaear ydan ni'n mynd i wneud? Fedrwn ni ddim byw fel hyn! Yn sydyn dyma rhywun yn cael brên wêf. Beth am drio rhoi rhywbeth at ei gilydd ar y wê? Wel dyna fysa'n dda. Pawb yn anfon syniadau at ei gilydd a'r ffôn yn pingian heb stop. Sut ar y ddaear mae gneud peth felly? Torri tir newydd? Ydi hynny'n bosib o ddifri? Wel mae ganddon ni 'techie' werth chweil yn Siwan does? Fydd hi'n gwbod sut. Ond mae hi yn Patagonia! Dim ots am hynny nacdi? Cyn pen dim roedd y peth ar y gweill. Y negeseuon Messenger yn dod yn rhesi. Ffeil sain gan Siwan i ni blygio i'n clustia wrth chwara'n offeryn a ffilmio ein hunain r'un pryd. Dwy alaw gyfarwydd, Delyn Newydd a Môn. Isi pisi medda fi. Ymarfer dipyn gynta, cyn mynd ati go iawn. Gosod camera'r ffôn ar y stand fiwsig o 'mlaen.



Nefi wen, y fi di honna! Sgyna i gymaint a hynna o rincyls? O, no wê dwi'n mynd ar y wê felna! Torri mhen i ffwrdd a dangos dim ond fy offeryn a 'nwylo? Dwi'm yn meddwl fysa Siwan yn hapus. Plastro chydig o hylif anti rincyl a chario mlaen. Reit, plygs yn fy nghlustia, offeryn yn fy llaw. Be arall? O ia, pwyso'r botwm coch ar y camera. Tro cynta, llanast go iawn. Methu'n glir â chadw fyny hefo ffidl Siwan heb golli dwsinau o nodau. Ymarfer eto i godi dipyn o sbîd. Trio eto, ac eto, ac eto ..... nes yn y diwedd bodloni. Amseriad dipyn bach yn amheus a'r rincyls yno o hyd.
Yn y cyfamser roedd Mistar Band Un Dyn, Hefin, wrthi yn ei stafell wely yn y tô yn Traws yn cynhyrchu fideos, un ar ôl y llall, ar o leiaf dri gwahanol offeryn. Amseru perffaith gan y cythral bach a dim rincyls.




Celt, Bill, Ken o Port, Gerallt Rhun, Rowenna o'r Bala, Hefin, a finnau'n gyrru ein ffilmiau i Siwan drwy Whatsapp a Dropbox. Hithau wedyn yn eu cymysgu a'u cyfuno i wneud un fideo lle mae pawb yn chwarae hefo'i gilydd. Mae ganddi raglen ar ei laptop ac mae hi'n deall petha fel'na. Wedyn ei roi ar CÔR-ONA! os bydd o ddigon da.



Hwyl ofnadwy er ddim cystal â sesiwn fyw. Edrychwn ymlaen at pan ddaw haul ar fryn ac y cawn ddod at ein gilydd go iawn unwaith eto.
**AR**

---

## MANYLION BANC

### Llais Ardudwy

Mae amryw wedi holi am fanylion banc Llais Ardudwy er mwyn iddyn nhw fedru rhoi cyfraniad neu adnewyddu eu tanysgrifiad. Os ydi o'n gyfraniad - nodwch CYF ar y taliad ac os ydi o'n danysgrifiad [£7.70 y flwyddyn] nodwch TAN. Diolch.
**Banc:** HSBC Porthmadog
**Côd Sortio:** 40-37-13
**Rhif y cyfrif:** 61074229

# LLANBEDR, CWM BYCHAN A NANTCOL

**Diolch**
Derbyniwyd siec am £10 gan Cynthia Jones, Wenallt er cof am y diweddar Gwynne Jones. Dymuna Cynthia ddiolch yn arbennig i Mrs Bethan Johnstone am ei chymorth amhrisiadwy yn ystod y cyfnod anodd hwn.
**Rhodd £10**

**Marwolaeth**
Bu farw Mrs Winifred Adamowski, Llys Meirion yn Ysbyty Gwynedd ar Ebrill 3, yn 93 oed. Cydymdeimlwn â'i merch Vanda a'i mab yng nghyfraith Ronald Sarney.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Beti Mai Miller, Riverside, yn ei phrofedigaeth sydyn o golli ei mab Dafydd ac yntau ond 40 oed, a hefyd ein cydymdeimlad â'i mab Ifan. Amser anodd iawn iddynt i gyd fel teulu.

**Diolch**
Diolch i Edith Owen am ei rhodd o £10.50 i Llais Ardudwy.

**Y gog**
Mae'r gog wedi cyrraedd yn gynnar iawn eleni. Clywodd Gwenan hi ar Ebrill 10 yng Nghaergoronwy, Bontddu, a chlywyd hi gyntaf yn y Cwm gan Trystan ar y 15fed, a'r un diwrnod bu'n canu yng nghwm Uwchlaw'r Coed, meddai Jennifer Greenwood. Braf ei chlywed eto i godi'n calonnau.

**Diolch**
Dymuna Pat Thomas a'r teulu ddiolch o galon am yr holl negeseuon, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniwyd ganddynt tra bu Pat yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gwerthfawrogwyd y cwbl yn fawr iawn. Diolch yn arbennig i holl staff Ysbyty Maelor, Wrecsam ac Ysbyty Dolgellau am eu gofal.
**Rhodd a diolch £10**

**Marwolaeth**
Bu farw Lawrence Barry, Gwesty Victoria yn Ysbyty Gwynedd ar 13 Ebrill yn 76 oed. Cydymdeimlwn â'i wraig June a'r teulu yn eu profedigaeth.

## FY HOFF DAITH

Ar ddiwrnod braf o wanwyn does dim a hoffaf fwy na mynd am dro heibio Uwchlaw'rcoed. Mae bwtshas y gôg yn eu blodau o gwmpas hen gapel Ty'n Drain yn garped glas. Pan ddof i ben rhiw Tyddyn Llidiart trof i'r chwith o'r ffordd a thrwy'r giât i Ffridd Tyddyn Llidiart. Trwy lidiart arall ac rwyf ar dir yr Hafod; mae'r murddun ar y chwith mewn lle cysgodol, yna mae yna hwylfa lydan gyda chloddiau uchel. Tybed oedd hon yn ffordd o'r Cwm i lawr i Lanbad cyn adeiladu Pont y Cwm? Wedi mynd trwy'r llidiart haearn, i'r chwith mae murddun arall - Cystyllen, lle bu Dafydd Jones yn byw, roedd yn gwneud ysgubau grug ac yn mynd o gwmpas i'w gwerthu.
Yna rwyf yn ôl ar y ffordd galed ar Ffridd Caerffynnon; hon yw'r ffordd o'r Cwm i Dyffryn. Dringo'r rhiwiau a dof toc at giât fochyn ar y chwith sy'n arwain at Ffynnon Enddwyn. Mae dŵr hon yn iachusol iawn yn ôl y sôn. Wedi cael diod o'r ffynnon af ymlaen at Lidiart Muriau Dŵr. Rwyf yn awr ar dir Faeldre, ac mae yma lawer iawn o olion cloddio am fango. Mae yna ogof wrth ochr y ffordd a phan yn ifanc roedd arnaf arswyd wrth fynd heibio iddi pan yn tywyllu. Yna cyrraedd Pen yr Allt Fawr. Dyma'r lle prydferthaf gen i ar ddiwrnod clir - caf weld bae Ceredigion a Sarn Badrig a mynyddoedd Eryri i lawr at ochrau Llŷn.
Gosodwyd mainc yma er cof am wraig o Lanfair, a'r ysgrifen yma arni:
Er cof annwyl, *In loving memory of* - Anni (Nancy) Maule, 1920-2002. *A wonderful mum who called this view her glimpse of paradise.*
Lle braf i orffwys cyn troi am adra neu ymlaen dros y gefnen i'r Cwm -
'Chwiliwch y byd trwyddo i gyd
does unman yn debyg i gartref.'

## RHAGOR O ATGOFION ELFYN PUGH

**Atgofion o Lanbedr unwaith eto gan Elfyn Pugh, Llwyn Onn gynt.** Diolch iddo am ei gyfraniad i'r Llais fel hyn, ac iddo gyfaddef nad yw wedi 'sgwennu cymaint o Gymraeg ers pan oedd yn anfon llythyrau adref at ei fam ers talwm, ond yn falch o gael gwneud rhywbeth yn ystod y dyddiau anodd yma.

**Atgofion**
Haf 1945 ydoedd pan ofynnodd Lewis Emlyn Jones, Pen y Bont, i mi helpu gyda'r godro a gwneud gwaith hefo'r tractor a dysgu dreifio, er mai un-ar-ddeg oed oeddwn. Roedd Lewis Emlyn wedi cael ei ryddhau o'r Marines ddwy flynedd ynghynt er mwyn ffermio Pen y Bont oherwydd bod John Owen wedi colli ei olwg.
Gyda'r godro roeddwn yn helpu i dywallt y llaeth trwy'r "cooler" ac wedyn helpu Lewis i gario'r 'churn' laeth i ben y ffordd er mwyn llwytho ar y lori laeth. Dreifar y lori laeth oedd Glyn Borth y Gest, y tenor enwog, ac mi ddaethom i adnabod ein gilydd yn dda, ac rwyf yn dal i'w weld mewn ambell gyngerdd.
Y pleser mwyaf yr oeddwn yn ei gael gyda Lewis oedd gyrru'r tractor o amgylch y caeau, symud o dwmpath gwair i'r nesa, Lewis yn codi'r gwair a Dic, Ty'n Llan yn ei roi yn ei le i wneud llwyth saff. Yr oedd Dic yn un da am wneud hyn, ac adeiladu tas wair dda pan yn dadlwytho. (Gwair rhydd, wrth gwrs).
Un arall oedd yn helpu gyda'r gwair oedd Gruffydd Parc (Tyddyn Pandy). Morris Tyddyn Pandy oedd yn edrych ar ôl dwy fuwch a gwerthu llaeth o amgylch y pentref yn Llanbedr. Yr oedd Gruffydd Parc yn gweithio ar y rheilffordd yn ystod y dydd a ffermio ar fin nos. Ar ddydd Sul mi fydda fo yn cerdded y lein o Bensarn hyd at Talsarnau hefo gordd er mwyn taro'r 'wedge' bren oedd yn dal y lein yn ei le ar gyfer pob sliper. Y rheswm pam y dois i adnabod Gruffydd Parc mor dda oedd, bob nos Sul ar ei ffordd adre o'i waith yr oedd yn galw yn Llwyn Onn am baned o de, a chodi ei bapur newydd "Y People". Yr oeddwn i yn ei gael o'r siop yn y bore.
Yr oedd yna gystadleuaeth rhwng Dic Ty'n Llan a Gruffydd Parc - pwy fyddai'r gorau am lwytho gwair ar y gambo, a Lewis fel beirniad arnynt i weld pwy oedd y llwythwr gorau. Un prynhawn roeddent yn llwytho gwair yn y Gefnan, ar draws y ffordd i Beach House. Guto Mochras a'r teulu oedd yn byw yno amser hynny.
Mi roeddwn i yn dreifio'r tractor o un twmpath i'r llall. Lewis yn llwytho'r gwair, a Dic yn gosod y gwair yn ei le, Dic yn dweud "dipyn bach eto" er mwyn cael llwyth mawr, a Lewis yn ateb "dyna ddigon rŵan". Gwrthododd Dic â dod oddi ar y llwyth, ac felly y buodd hi. Cychwyn ar y ffordd a Dic ar ben y llwyth. Ar y cychwyn 'roedd Dic yn eistedd ar flaen y llwyth, yn dipyn o ddyn. Pan drodd y tractor o'r ffordd i fynd heibio Tŷ Pen Bont, yr oedd 'na weiren drydan yn croesi o un ochr i'r llall. Ddaru Dic ddim sylwi ar hon mewn pryd. Aeth y weiren o dan ei ên, a'i dynnu yn ôl i gefn y llwyth. Diolch byth bod Lewis wedi clywed y waedd mewn pryd, neu mi fyddai Dic wedi cael dipyn o godwm o ben y llwyth.
Ni chafodd Dic na Gruffydd Parc byth eistedd ar ben y llwyth o wair i fynd trwy Lanbedr wedyn.
Dyma hen englyn am Gruffydd Parc – credaf mai gwaith Gwilym Ardudwy ydyw, wedi i Gruffydd Parc foddi yn yr Artro.)
Ai tristwch a ddaeth trosto ? - ai bwriad
Barus a'i ysbeilio?
Ond dyma'r gwŷn sef dwyn y gô'
I hurtrwydd 'r afon Artro.
Gwilym Ardudwy?
**EP**
[Diolch Elfyn. Melys moes mwy! [Gol]

# GWAITH HAEARN

Daeth cais gan Haf Meredydd yn ddiweddar am luniau hen giatiau haearn sydd yn dal ar waith ar ffermydd ardal Ardudwy. Credaf bod angen lluniau o enghreifftiau ar gyfer datblygu giât ar ffurf draddodiadol ar gyfer y Lasynys.

Mae yn yr Hendre nifer o giatiau, ond nid ydwyf yn siŵr bod y rhain yn addas eu gwneuthuriad ar gyfer tŷ bonedd fel y Lasynys. Fferm eithaf tlawd oedd yr Hendre (ddoe a heddiw), ysywaeth.



Rhif 1. Mae hon yn fwy addurniadol.
Dyma enghraifft sydd acw rŵan, ar adwy corlannau yng Nglanrhaiadr.



Daeth y giât Rhif 2 oddi ar y terfyn rhwng Gors y Gedol a Ffridd Ucha (Glanrhaiadr). Llwybr ceffyl heibio'r Moelfre tuag at Pont Sgethin, ond bellach wedi ei hail leoli yn yr Hendre. Fel y gwelwch mae llai o addurn yma. Mae hon wedi cael ei haddasu i gymeryd cetyn. Byddai rhai enghreifftiau lle na fyddai cetyn yn dal gwaelod y giât ond yn hytrach darn o haearn yn troi mewn twll neu bant yn y graig, ar siâp pigyn.
Gwneud y giât i ffitio'r adwy fel petai.
Falle bod gennych chwi ddarllenwyr Llais Ardudwy unrhyw beth i'w ychwanegu ac olrhain hanes y giatiau hyn.
Cofio darllen yn rhywle bod gan pob gofaint ei arddull ei hun wrth lunio'r grefft o waith haearn. Biti garw na fyddai y grantiau wedi caniatáu rhoi giatiau cyffelyb yn lle y giatiau pren, sydd yn malu yn y gwynt yn dragywydd.
Giatiau eithriadol o drwm, a thua 8 troedfedd yn unig o led. Dydyn nhw ddim yn addas ar gyfer adwyon fferm bellach, gan bod nifer o'r adwyon wedi cael eu lledu ar gyfer defnydd modern o amaethu. Gwn fod giatiau cyffelyb yng Nghilcychwyn sydd wedi cael eu haddasu ar gyfer adwyon lletach, gan weldio darn at yr hen giât. Oherwydd atal ar grwydro, nid ydym wedi cael lluniau o'r rheini.
Gyda chynlluniau Tir Cymen, Tir Gofal a Glasdir, daeth y giatiau pren yn fwy amlwg ar adwyon y caeau.



Dyma yr hen giât oedd ar y ffordd ger Cilcychwyn ers stalwm.
Dwi wedi dod o hyd i hen lun efo Edward Edwards, Cilcychwyn yn y llun. Credaf bod y giât yma ar adwy y Ddôl erbyn heddiw.
Dwn i ddim beth yw eu hoed na phwy yw'r gwneuthurwr. Rydw i'n ymwybodol bod yna efail y gof yn Llanbedr yn 1857 (siop y Becws erbyn heddiw) o hanes gan Gwilym Ardudwy.
Gruffydd Dafydd oedd y gof ac roedd yntau yn bersonoliaeth boblogaidd yn y pentref, yn ffraeth, yn siaradwr cyflym ac yn weithiwr dygn. Daeth ei efail yn fan cyfarfod i'r pentrefwyr. Roedd ganddo ddawn arbennig i doddi copr ac efydd, a phan ofynnwyd am y dull cyfrinachol, ei ateb bob amser oedd, "Mae arnoch angen lapis calamoniaris, machgen i!"
Gobeithio i chwi fwynhau hyn o gyfraniad at Llais Ardudwy.
**MLl**

---

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Eleri a John, Morfa Mawr ar enedigaeth merch, Swyn ar Ebrill 28. Bydd Ilan wrth ei fodd!

SAMARIAID
LLINELL
GYMRAEG
08081 640123

# HARLECH

**Siop y Morfa**
Mae pobl Harlech yn ddiolchgar iawn i holl staff Siop y Morfa am eu hynawsedd a'u caredigrwydd tra bo pawb dan gysgod feirws y goron. Maen nhw wedi gweithio'n galed i sicrhau gwasanaeth o'r radd flaenaf i'w cwsmeriaid.

**Peiriant codi arian**
Diolch yn fawr iawn i Gerry a Janice Brookes, 'Siop Rhesymau a Thymhorau' am eu gwaith gwiw yn sicrhau fod peiriant codi arian di-dâl ar gael yn y dref at ein gwasanaeth.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Helen a Bedwyr Williams, Ty'n Ffordd yn eu profedigaeth o golli brawd a brawd yng nghyfraith yn ddiweddar. Bu farw Michael John Jones yn dawel yn ei gartref, Cae Crwth ar Ebrill 8. Gedy ei wraig Nerys a'i fab John Wyn.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Carol Paul, Pen-yr-hwylfa, ei chwaer Dorothy a'i brawd Alan yn eu profedigaeth o golli eu mam, Elizabeth Dorothy Williams, 41, Y Waun. Cynhaliwyd yr angladd yn y fynwent gyhoeddus ar Ebrill 17.


**Damwain**
Anfonwn ein cofion at Rhian Lumb, 2 Tŷ Canol sydd wedi cael anaf i'w phen-glin. Diolch i'r drefn nid yw wedi torri asgwrn ac mae'n gallu symud heb y baglau erbyn hyn.

**Geni**
Ar Ebrill 13, ganwyd merch Esmi Rhodd i Fiona a Joe, Talgoed, Harlech; chwaer i Aria. Croeso mawr i'r fechan a llongyfarchiadau gan y ddau deulu.

## SIOE FLODAU HARLECH

Oherwydd argyfwng y Covid-19, ni chynhelir y Sioe Haf eleni. Er hynny, os bydd amgylchiadau'n caniatáu, bwriadwn ddal ati i gynnal y Sioe Glan Gaeaf.

## TRI DYLANWADOL YN HEDDLU GOGLEDD CYMRU


Arfon Jones

Etholwyd Arfon Jones yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd gogledd Cymru ar 5 Mai 2016. Mae Arfon yn wreiddiol o Ddyddyn y Gwynt, Llanfair, Harlech ond erbyn hyn mae'n byw yng Ngwersyllt, Wrecsam gyda'i wraig Gwenfair. Mae ganddynt ddwy ferch a phedwar o wyrion. Bu'n gynghorydd yn Wrecsam dros ward Gorllewin Gwersyllt, ac mae'n aelod o Gyngor Cymunedol Gwersyllt. Dilynodd yrfa lwyddiannus gyda Heddlu Gogledd Cymru rhwng 1978 a 2008 pan ymddeolodd ar reng Arolygydd. Ymddangosodd ei gyfraniad i'r golofn i'r Llais ar ffurf Holi Hwn a'r Llall yn ddiweddar.



Lisa Jones

**Dyrchafiad**
Llongyfarchiadau i Lisa Jones, merch Glyn a Julie Jones, 18 Tŷ Canol sydd wedi ei dyrchafu yn Arolygydd De Gwynedd yn ddiweddar. Mae'r traddodiad plismona yn y teulu, wrth gwrs. Bu Glyn, ei thad, yn ringyll poblogaidd yn y Bermo cyn iddo ymddeol. Rydym yn falch iawn o'i llwyddiant.


Mark Armstrong

**Prif Arolygydd yr Hedddlu**
Mae'r Prif Arolygydd Mark Armstrong yn byw yn Harlech ers rhai blynyddoedd ac yn weithgar yn y gymuned. Bu'n heddwas ers 19 o flynyddoedd. Ers 2017, ef sy'n gyfrifol am yr heddlu ar Ynys Môn. Cyn ei ddyrchafiad, roedd Mark yn arolygydd yn ne Gwynedd.





Thema neges eleni yw dyhead pobl ifanc i weld y byd yn gwrando ac yn dysgu o argyfwng feirws Covid-19. (urdd.cymru/heddwch)
Mae'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn unigryw i Gymru, ac wedi ei danfon yn flynyddol ers 98 o flynyddoedd - dyma'r unig neges o'i fath yn y byd.
Gofynnaf am eich cefnogaeth i helpu pobl ifanc Cymru ar y 18fed o Fai i wneud hon y neges fwyaf mewn hanes. Bydd y neges yn cael ei chyhoeddi o gyfrifon cymdeithasol Urdd Gobaith Cymru ar ddydd Llun y 18fed o Fai ac rydym yn gofyn i chi wneud o leiaf un o'r tri pheth canlynol:
Aildrydarwch / postio y neges ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar y 18fed o Fai gydag Emoji, baner eich gwlad chi, Emoji y byd, Eich hoff Emoji ac #heddwch2020.
Paratowch ymateb i'n neges ni - gall hwn fod yn lun/geiriad/gair o gefnogaeth/lluniau/fideo / can gan ddefnyddio #heddwch2020 neu ei ebostio at heddwch@urdd.org
Anogwch eich ffrindiau a chysylltiadau ar draws y byd i ymateb.
Helpwch yr Urdd. Helpwch Gymru. Helpwch ein Bobl ifanc . . . i gyrraedd 15 miliwn o bobl mewn 50 o wledydd ledled y byd yn 2020!
Am fwy o fanylion e-bostiwch - heddwch@urdd.org

# LLANFAIR A LLANDANWG

**Merched y Wawr Llanfair a Harlech**
Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Richard Jones, gŵr un o'n haelodau, Cassie Jones. Bu'r ddau'n byw yn Harlech hyd yn weddol ddiweddar, cyn symud i Hafod y Gest, Porthmadog.
Roedd yn gefnder i gyn-aelod, sef y diweddar Mair M Williams. Anfonwn ein cydymdeimlad â Cassie a'r teulu oll yn eu colled ar adeg mor anodd
Bydd rhaid meddwl am y flwyddyn nesaf a cheisio meddwl am raglen. Gan ein bod wedi gohirio dau gyfarfod gobeithir eu cynnwys yn rhaglen 2020/21. Os oes gennych syniadau ar gyfer y rhaglen rhowch wybod i Janet, gyda rhif cyswllt os yn bosib. Gobeithio rhoi mwy o wybodaeth i chi ynglŷn â'r sefyllfa cyn bo hir. Gan fod pedair ohonom wedi cytuno i roi blodau ar y gofeb ym mis Mehefin, mi wnawn lynu at y rhestr. Os oes unrhyw drafferth, cofiwch gysylltu. Edrychwch ar ôl eich hunain a chadwch yn saff.

**Merched y Wawr yr ardal**
Cafwyd cais gan Freda Williams, Swyddog Datblygu Merched y Wawr Meirionnydd, yn gofyn i'n haelodau fynd ati i wneud crefft o gynhyrchu blodau - mewn unrhyw gyfrwng, o unrhyw faint a lliw – ac i dynnu llun o'r cynnyrch gorffenedig. Y cynllun ydy i'r lluniau terfynol gael eu casglu at ei gilydd a bydd y goreuon yn cael eu harddangos yn rhywle, rhywbryd gan y Pwyllgor Rhanbarth. Does dim mwy o fanylion na hynny ar hyn o bryd ond os oes gennych ddiddordeb, neu awydd rhywbeth gwahanol i'w wneud, ewch ati i greu!

# TEYRNGED



**Dan Jones, y darlithydd a'r rheolwr coleg**
Cyfnod cyffrous yn hanes addysg ym Meirionnydd oedd saithdegau cynnar y ganrif dd'wetha'. Gwireddwyd breuddwyd a sefydlwyd Coleg Meirionnydd i gynnig addysg a hyfforddiant ôl-16. Bellach, fe all ieuenctid y fro ennill sgiliau fydd yn eu cymhwyso i'r byd gwaith, heb orfod teithio y tu hwnt i ffiniau Meirionnydd. Gyda'r datblygiadau ym myd cerbydau, roedd garejis lleol yn awyddus i recriwtio staff gyda sgiliau newydd. Sefydlodd y coleg Gwrs Gofal a Gwasanaeth Cerbydau ac apwyntiwyd Dan Jones, brodor o Harlech, i fod yn gyfrifol am y cwrs. Recriwtiwyd myfyrwyr llawn a rhan amser ac wynebodd Dan ei ddyletswyddau, fel gyda phopeth arall mewn bywyd, gydag ymroddiad a thrylwyredd. Nid ofnai waith a cheisiodd feithrin yr un rhinwedd yn ei fyfyrwyr. Roedd yn y coleg bron o'r cychwyn, yn rhan o grŵp bychan o staff llawn amser wnaeth sicrhau cychwyn da i'r sefydliad newydd. Roedd hwyliau llong Coleg Meirionnydd yn llawn dan gapteniaeth Keith Jones a buan y gwnaeth y Dan Jones ifanc a brwdfrydig sefydlu ei hun fel aelod gwerthfawr a phoblogaidd o'r criw. Cymerai ran lawn yng ngweithgareddau cymdeithasol y staff ac mi roedd 'na sawl hanesyn doniol yn deillio o'r "dathliadau" diwedd tymor!
Dathliadau gwahanol a phwysicach oedd rheiny yn ymwneud â llwyddiant ei fyfyrwyr yn eu harholiadau. Roedd yna lwyddiant personol hefyd, wrth iddo weithio'n galed trwy'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd i ychwanegu at ei gymwysterau. Cofrestrwyd Dan ar gwrs addysg rhan amser ym Mhrifysgol Caerdydd a mawr y balchder wrth i'r Tystysgrif Addysg ei gymhwyso 'mhellach i'w waith.
Byddai'n hoff o ddefnyddio hiwmor wrth gyflwyno'r maes llafur ond byth ar draul peryglu disgyblaeth y 'stafell ddosbarth neu'r gweithdy. Un tro danfonodd fyfyriwr, nad oedd wedi talu digon o sylw, i un o'r garejis lleol oedd yn adnabod Dan yn iawn, i ofyn am bot o "elbow grease"! Parod iawn oedd cydweithwyr i gyfeirio problemau ceir ato ac roedd y cwestiwn, "Oes siawns cael golwg ar fy nghar, Dan?" yn un y clywodd ar fwy nag un achlysur. Byddai'n ymateb yn ffafriol ond rhaid fyddai aros tan fod "jobsys" y maes llafur wedi eu cwblhau. Cofiaf un tro ei boeni am ryw sŵn yn y car. Mater dibwys a dweud y gwir. Cefais ymateb pwrpasol a ffraeth. "Tro'r radio lan, Ray"!
Gweithio gyda'n gilydd yng Ngholeg Meirionnydd, buan y tyfodd ein cyfeillgarwch. Roedd Dan a fi yn rhan o drefniant rhannu ceir, a dros y blynyddoedd bu nifer o'r darlithwyr o Fro Ardudwy yn rhan o'r trefniant hwylus. Mor ffodus oeddwn i gael ysblander dyffryn Mawddach yn gefnlen i'r teithiau dyddiol. Difyr iawn fu'r sgyrsiau yn y car ac weithiau roedd rhywun yn anghofio ein bod yn teithio i'r gwaith! Cyfeillgar oedd yr awyrgylch ag eithrio efallai os fyddai un ohonom yn cadw'r gweddill i aros yn fwy na'r arfer, yn enwedig os digwyddai hynny syrthio ar noson pan oedd "time trial" 'da Dan. Ie, 'da ni ym myd y seiclo, camp roedd e'n frwdfrydig ynglŷn â hi. Bu'n Gadeirydd Clwb Seiclo Harlech yn ogystal â bod yn un o'r sylfaenwyr. Bu'r holl seiclo yn erbyn y cloc yn hwb mawr i'w ffitrwydd a mentrais ei gyflwyno i'r gêm sboncen. Rhaid imi wneud jobyn iawn o gyflwyno rheolau'r gamp iddo, oherwydd weithiau, ie, dim ond weithiau, Dan oedd yn fuddugol. Wrth ei waith bob dydd, fel gyda'i weithgareddau a'i ddiddordebau y tu allan i'r coleg, yr un oedd arwyddair Dan, sef anelu am y gorau.
Ym mlynyddoedd cynnar y coleg, roedd bywyd mewn colegau addysg bellach ychydig yn arafach nag yw erbyn hyn. Roedd amser i gael sgwrs dros ginio! Dan a'i gydweithwyr adrannol oedd yn gwahodd y criw brechdanau i swyddfa'r Adran Beirianneg. Roedd y sgyrsiau yn hwyliog a bron y gellid eu disgrifio fel rhai diwylliannol. Dyma "gaban" Coleg Meirionnydd. Weithiau byddai'r ffôn yn canu; neges o'r cantîn fod yna tsips ar ôl. Un ohonom yn rhuthro draw, gan ddychwelyd â'r "*take away*" i bawb ei fwynhau!
Yn 1993, cychwyn pennod newydd yn hanes addysg Meirionnydd wrth i ddyddiau Coleg Meirionnydd ddod i ben ac iddo ddod yn rhan o system drydyddol. Gwasanaethodd Dan Goleg Meirion Dwyfor gyda'r un brwdfrydedd a gofal yr oedd wedi ei ddangos cynt. Cydnabuwyd ei brofiad a chafodd ei ddyrchafu i fod yn Rheolwr Safle Campws Dolgellau, swydd y'i daliodd am nifer o flynyddoedd, tan ei ymddeoliad. Roedd yr aelod ifanc o'r criw a ddaeth ar ei bwrdd dros dri deg o flynyddoedd ynghynt, bellach yn eistedd wrth fwrdd y capten ac yn helpu i lywio'r llong. Mae Dan bellach wedi teithio ei fordaith olaf ac wrth i ni ddathlu ei fywyd, cyfle i ddiolch am fod wedi cael rhannu mewn agweddau o'r bywyd hwnnw, y tu fewn a thu hwnt i furiau'r coleg. Mi roedd yn gydweithiwr hoffus a dibynadwy ond yn fwy pwysig, yn gyfaill teyrngar a chywir. Am ŵr y ceir, gallwn ddweud â sicrwydd, ei fod yn "*top of the range*" ac mae'n gadael etifeddiaeth gyfoethog o atgofion. Diolch Dan.
**RO**

**Diolch**
Dymuna Marian, Glenn a'r teulu ddiolch i bawb am am eu holl garedigrwydd a'u cefnogaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gobaith y teulu yw trefnu gwasanaeth coffa i Dan, pan fydd amgylchiadau yn caniatáu.
**Rhodd £10**

# DYFFRYN ARDUDWY A THAL-Y-BONT

**Cydymdeimlo**
Trist cyhoeddi marwolaeth Lilian Edwards yng Nghartref Nyrsio Alexandra, Tywyn, yn 96 oed. Cydymdeimlwn â Sarah a Dave Tibbetts a'r teulu oll yn eu colled. Un o Ddyffryn Ardudwy oedd Lilian ac yn dilyn cyfnod i ffwrdd yn y coleg a swyddi dysgu yn Sir Fôn a Chorwen, dychwelodd i fro ei mebyd i ddysgu yn Ysgol Ardudwy. Mawr fu ei chyfraniad i'w chymuned a bu'n aelod gweithgar a brwdfrydig o amrywiol fudiadau a'r capel. Ni ballodd ei diddordeb yng ngweithgareddau'r fro tan y diwedd er i iechyd ei rhwystro rhag parhau i fynychu. Bydd teyrnged lawn iddi yn y rhifyn nesaf.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Mrs Ann Price, Bro Enddwyn, Mrs Pat Thomas, Cerrig Gleision a Mr Meirion Owen, Ty'n Cae, sydd wedi cael dod adre o wahanol ysbytai. Rydym yn meddwl amdanoch.

**Ymddeol**
Pob dymuniad da i Mr Dewi Thomas, Cerrig Gleision, ar ei ymddeoliad.

**Rhodd**
Diolch i Mrs Heulwen P Jones am ei rhodd i Llais Ardudwy.

## PWYSIGRWYDD Y LLYTHYRXN GOLL

Xr bod y 'typxwriter' sydd gennym yn hxn, max yn gwxithio yn dda ond am un o'r llythrxnnau. Max yn wir bod yna bedwar deg a chwxch o lythrxnnau sydd yn gwxithio, ond max un llythrxn nad ydy'n gwxithio yn gwnxud gwahaniaxth.
Hwyrach y buasxch yn dwxud wrth xich hunan, wna hi ddim gwnxud nac amharu ar unrhyw gynllun.
Ond y max yn gwnxud gwhaniaxth i gylch o gymdxithasau, ac yn amharu ar xu dxalltwriaxth o anghxnion cymdxithas.
Y tro nxsaf yr ydych yn mxddwl mai dim ond un unigolyn dinod ydych, nxu yn ddibwys ac na wnxith neb xich colli, cofiwch am yr hxn typxwriter a dywxdwch wrth xich hun, unigolyn cyffrxdin ydwyf yn y pxntrxf ac fxl llawxr xraill max anghxn ein cxfnogaxth i gynnal y gwxthgarxddau y gymunxd ac max cyfraniad yr unigolun mor bwysig fel ydych yn gwxld pan max un llythrxn y typxwriter yn amharu ar wxddill y gwaith, ac yn xu gwnxud yn ddibwys, Max un llais drwg yng nghanol côr yn xu wnxud yn boxnus i wrando arno. Cofiwch hxfyd bxth all un afal drwg xi wneud yng nghanol yr afalau yn y gasgxn. Max'n rhaid i'r unigolyn wnxud xi orau bob amsxr i'r gymdxithas nxu fydd y diffygion i'w gweld yn amlwg fel max y llythrxn E yn amlwg yn eu habsxnoldxb yn y llith yma.
Munud i feddwl: Diolch i Les Darbyshire am anfon yr uchod ymlaen i ni.

## CYSTADLEUAETH LLUN A STORI



Beth ydi hwn sydd yn y llun? Mae'n mesur rhyw 43 modfedd o hyd a 2 fodfedd o drwch. Mae gennym nifer o drugareddau adre yn yr Hendre a mwy o amser i chwilota amdanyn nhw rŵan yn ystod y cyfnod hunan-ynysu. Tybed a oes yna unrhyw un o ddarllenwyr Llais Ardudwy yn gwybod beth ydi o? Gorau'n byd os medrwch chi sgwennu rhyw stori fach i gyd-fynd â'r gwrthrych! Gyda llaw, nid brigyn i'w roi ar y tân ydi o. Edrychaf ymlaen i glywed eich hanesion.
**Mari Lloyd**

# Llyfr Glas Llandudno



Yn ei Neges y Pasg, cyfeiriodd Esgob Bangor, Y Gwir Barchedig Andrew John, at dawelwch iasol y gadeirlan a'r strydoedd o'i hamgylch. Rhyw lonyddwch iasol hefyd oedd yn taro rhywun wrth edrych ar y llun o'r geifr cashmiri yn crwydro strydoedd Llandudno. Y tawelwch afreal yn eu denu i'r dref o'u cartref ar Y Gogarth. Aeth y dychymyg yn drech na fi a throdd y meddwl at nofel Manon Steffan Ros, Llyfr Glas Nebo, sy'n disgrifio bywyd yn Nebo a'r cyffiniau yn dilyn "Y Terfyn". Gwnaeth llun y geifr ddwyn i gof eiriau'r awdur, wrth iddi sôn am "deulu o geirw ynghanol y mieri oedd bellach yn tyfu ym maes parcio Tesco Port". Nid yw'r sefyllfa ddyrys a heriol sy'n bodoli ar hyn o bryd cynddrwg â'r sefyllfa apocalyptaidd yn Llyfr Glas Nebo ond, i adleisio geiriau'r esgob, mae rhywbeth digon iasol yn y llonyddwch sy'n bodoli yn ein trefi a'n pentrefi. Prysured y dydd y daw normalrwydd yn ei ôl ac y cawn eto y rhyddid i grwydro a chymdeithasu. Mae yna wersi i'w dysgu o'r pandemig a gobeithio'n fawr y bydd y byd "ôl-lockdown" wedi newid er gwell.
**Ray Owen**


**Smithy Garage**
MITSUBISHI MOTORS
Dyffryn Ardudwy, Gwynedd
**Tel: 01341 247799**
**www.smithygarage-mitsubishi.co.uk**
smithygaragedyffryn
smithygarageltd
Motability



**Ar gael ar delerau 0% hurbrynu dros 3 blynedd heb unrhyw isafswm ernes**



# HEN BENNILL



'Pan fydd y ddraenen ddu yn wen, tafl dy gynfas dros dy ben.'



'Pan fydd y ddraenen wen yn wych, hau dy had boed wlyb neu sych.'



Mae'r hen bennill uchod yn taro deuddeg! Roedd y ddraenen ddu yn dechrau blodeuo ddechrau mis Ebrill eleni ac roedd yr hin yn dyner ac felly roedd yn amser delfrydol i hau. Bydd yn ddiddorol edrych ar y ddraenen wen eleni i gael gweld pa bryd y bydd honno yn ei gogoniant. Yn sicr, fe ddylech fynd ati i hau yn ddiymdroi pan welwch chi'r blodau gwynion. Mae pobl Iwerddon yn plannu tatws ar dydd gwŷl Sant Padrig, sef Mawrth 17. Ond siawns eu bod yn dal yn ôl os ydi'r tywydd yn anffafriol! Mae'n ddiddorol hefyd eu bod yn plannu tair rhes wrth ochr ei gilydd.
Os oes gennych chi wybodaeth ddiddorol am arferion plannu - rhowch wybod. Diolch.

# BRAWD AETH I FYD Y CEIR

Petai rhywun rhyw dro am wneud cyfrol newydd o 'Ardudwy a'i Gwron' mae'n siŵr y byddai enw E Morgan Humphreys yn cael ei gynnwys. Fel newyddiadurwr a ddechreuodd ar y *Barmouth Advertizer* yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yna crwydro i weithio ar bapurau yn ardal Lerpwl, dod yn ôl i Gaernarfon a wnaeth am ran helaeth o'i oes.

Mentrodd ei frawd ymhellach. Aeth i Ganada ac America ac ni ddaeth yn ôl. Ei enw oedd John Gwilym Humphreys ac yn ôl Cyfrifiad 1901 roedd yn 11 oed ac yn byw gyda'i rieni yn y Faeldref, Dyffryn.

Yn fuan wedi'r Cyfrifiad hwnnw roedd y teulu wedi symud i Lerpwl i gadw llaethdy a gwartheg yn Wavertree a siop yn Dale Street. Ond erbyn Cyfrifiad 1911 nid oedd hanes ohonynt yn y ddinas honno. Yn llythyrau ei fam i'w frawd yng Nghaernarfon, sydd i'w gweld yn Archifdy Prifysgol Bangor, roedd yn amlwg yn byw ac yn gweithio gyda'i rieni yn Lerpwl erbyn 1905. Ychydig o wybodaeth oedd amdano serch hynny er fod ei fam yn sôn am 'John Gwilym'.

Ar safle Papurau Newydd Cymru y Llyfrgell Genedlaethol ar y we gwelir ei enw yn y Goleuad yn Ebrill 1913, wedi priodi yn 24 oed:
*Humphreys - Savage. Mawrth 3ydd, yn nghartref y gweinidog, gan y Parch. H W Griffith, 549, Langside Street, Winnipeg, Man., Canada, - Mr John Gwilym Humphreys, mab i John Humphreys, Faeldref, Dyffryn, Meirionnydd, GC, a Miss Mary Savage, genedigol o Glasgow, Scotland. Bwriadent fyned i fyw*



John Gwilym Humphreys yn blentyn yn y Bermo
(Llun trwy ganiatâd Archifdy Prifysgol Bangor)

*ar ffarm yn Tate, Saskatchewan.* Roedd wedi gadael Lerpwl yn Ebrill 1911 ar yr SS Caronia. Yn ôl cofnod y llong roedd yn mynd at D R Evans yn y First National Bank, Belle Fourche, S D *(South Dakota)*. Mae gweddill yr wybodaeth amdano yn ddiddorol. Roedd yn was ffarm 22 oed, 5' 7" o daldra, pryd glân (*fresh complexion*), llygaid a gwallt brown. Dywedai mai yn Llanbedr (Ardudwy) yr oedd yn byw. Awgrymai hynny ei fod wedi symud yn ôl i'w hen ardal. Roedd ei dad wedi dychwelyd hefyd ar ôl colli ei wraig, Elizabeth. Serch hynny, enw ei frawd a nododd ar gyfer yr awdurdodau: *brother E Morgan Humphreys, Editor North Wales Observer, Caernarvon.*

Yn Ebrill 1911 yr oedd Mary Savage wedi cyrraedd Canada hefyd. Nid yw'n gwbl glir a oedd y ddau yn adnabod ei gilydd cyn cyrraedd. Cyfeiriai ei fam yn ei llythyrau at 'Marie' oedd yn gweithio iddynt. Mae lle i gredu eu bod yn dal yn Winnipeg pan anwyd eu plentyn cyntaf, Agnes Jean, yn 1914. Roeddynt yn dal yno yn 1921 a nodir mai switchman oedd ei waith, signal man oedd hynny. Yn y flwyddyn honno ganwyd mab iddynt a'i enw - Edward Morgan Humphreys. Daeth tro ar fyd yn eu hanes yn 1923 wrth ymfudo i ddinas Detroit, Michigan. Erbyn 1930 mae'r Cyfrifiad yn America yn dweud mai *roofing contractor* oedd o.

Gan mai yn Detroit oedd canolfan fawr y diwydiant ceir Americanaidd nid oedd yn syndod fod hynny wedi ei ddenu. Cafodd waith fel *machine operator* gyda'r Chrysler Group, Dodge Bros, Forge Plant, Lynch Rd.

Nid oes ddwyaith fod John Gwilym Humphreys wedi gweld y lle ar ei brysuraf. Serch hynny, ni fu yno'n hir ar ôl yr Ail Ryfel Byd gan iddo farw'n sydyn yn 57 oed yn 1946 o anhwylder ar y galon. Cafodd ei gladdu yn eglwys Mount Zion, Detroit oedd yn perthyn i'r eglwys Lutheraidd. Gadawodd wraig a dau o blant. Dim ond ddwy flynedd yn ôl y bu farw ei fab Edward yn Florida lle bu'n byw am flynyddoedd.


Yn sicr bu cysylltiad rhwng John a'i frawd a bu'n llythyru â'i dad yn achlysurol. Ond bu farw naw mlynedd cyn E Morgan Humphreys ac nid oes sicrwydd a fu'r teulu yn Detroit mewn cysylltiad wedyn. Nid oedd eu henwau ymhlith y galarwyr yn angladd E Morgan Humphreys yng Nghaernarfon yn 1955.
**WO**





**Plannu tatws ar Inis Oírr, Iwerddon**

# Y John Ambrose Lloyd arall




Soniais o'r blaen am John Ambrose Lloyd. Nid gormod ydi deud iddo ef ac un neu ddau arall weddnewid caniadaeth y cysegr yng Nghymru yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ond roedd yna ddau John Ambrose Lloyd – tad a mab. Mae'r mab (1840–1914) yn cael ei gofio bellach am un dôn sef rhif 427 yn y Caneuon Ffydd. Enw'r dôn honno ydi Kilmorey. Bu'r enw yn dipyn o benbleth i mi. Mae'r enw'n swnio braidd fel enw lle neu fynydd yn yr Alban neu yn Iwerddon a bûm yn ceisio gwneud rhywfaint o ymchwil i ganfod y lleoliad. Erbyn gweld mae yna Kilmorey Park Road yn Hoole yng Nghaer lle bu John Ambrose Lloyd yn byw am rai blynyddoedd ac ar ôl y stryd yr enwyd y dôn.

Fel ei dad gweithio i fasnachwyr y bu J A Lloyd gydol ei fywyd gwaith. Bu'n drafeiliwr hefo cwmni Frost yng Nghaer cyn symud i Lerpwl i weithio i'r Mri Lloyd a Thomas, masnachwyr ŷd.

Mae`r dôn yng Nghaniedydd yr Annibynwyr wedi ei chyplysu â dau emyn. Un ohonynt ydi'r emyn cenhadol;

***'O Greenland oer fynyddig,***
***O draethau`r India fawr,***
***Lle treigla ffrydiau Affrig***
***Eu tywod aur i lawr ...'***

Cyfieithiad Morris Davies, Bangor ydi hwn o emyn yr Esgob Heber:

***'From Greenland's icy mountains,***
***From India's coral strand,***
***Where Afric's sunny fountains***
***Roll down their golden sand ...'***

Clwais sôn am un hen ficer a ffwndrodd braidd wrth ledio'r emyn yma yn Saesneg;

***'From Iceland`s greasy mountains,***
***From India`s coral strand ...'***

Wel, mynyddoedd seimlyd neu beidio, fe ddaeth anfri braidd ar emynau cenhadol fel hyn bellach. Mae emynau tebyg wedi eu chwynnu o gasgliadau mwy diweddar.

Er hynny, mae'r dôn Kilmorey yn y Caneuon Ffydd; ond wedi ei gosod hefo dau emyn arall. Un o'r ddau ydi emyn 507. Dau bennill sydd iddo fo wedi eu rhoi hefo'i gilydd gan gasglwyr emynau. Mae`r pennill cyntaf gan Mary Owen. Dyma fo:

***'Caed modd i faddau beiau***
***a lle i guddio pen***
***yng nghlwyfau dyfnion Iesu***
***fu'n gwaedu ar y pren;***
***anfeidrol oedd ei gariad,***
***anrhaethol oedd ei gur***
***wrth farw dros bechadur***
***o dan yr hoelion dur.'***

Merch o Ynysmeudwy, Llansawel, Sir Forgannwg oedd Mary Owen (1796-1875). Peth digon diarth ydi gweld emyn o'r cyfnod gan ferch. Canodd Ann Griffiths lawer, wrth gwrs, ond mae merched o emynyddion o'r cyfnod yn brin. Bywyd digon caled a gafodd Mary Owen. Yn 1825, pridodd â chapten llong o'r enw Thomas Davies ond bu ei gŵr farw ar y môr gan ei gadael yn weddw ifanc hefo dwy ferch fach i'w magu. Yn 1836, ailbriododd hefo Robert Owen oedd yn weinidog gyda'r Annibynwyr yng Nghwmafan. Gŵr o Lanfyllin yn Sir Drefaldwyn oedd Robert Owen a bu yn Llanengan cyn dod i Gwmafan. Yn anffodus, aeth pethau o chwith iddo. Aeth yn ddibynnol ar alcohol ac wedi colli ei le fel gweinidog troes yn drempyn. Cafodd Mary Owen druan drafferthion mawr ac yn y diwedd gallodd gael ei gŵr yn ôl ati i'w ymgeleddu yn ei waeledd olaf. Ni allwn ond edmygu Mary Owen am ei dewrder a'i ffydd ac hefyd am ei thalent barddonol.

Mae'r pennill arall roddwyd i'w ganu ar Kilmorey efallai yn enwocach. Dyma fo:

***'Un waith am byth oedd ddigon***
***i wisgo`r goron ddrain;***
***un waith am byth oedd ddigon***
***i ddiodde'r bicell fain;***
***un aberth mawr yn sylwedd***
***yr holl aberthau i gyd;***
***un Iesu croeshoeliedig***
***yn frenin trwy'r holl fyd.'***

Ŵyr neb yn iawn pwy ydi awdur y pennill ond mae o wedi cael ei gyplysu ag emyn Mary Owen mewn casgliadau cyn gynhared ag 1885. Tybiodd rhai mai gwraig arall oedd yr awdur, sef Catrin Rolant o'r Graienyn, Llangower yn Sir Feirionnydd a thybiodd rhai eraill mai'r Parch Rowland Jones, Llanwrin yn Sir Drefaldwyn piau'r geiriau. Y gwir yw na ŵyr neb yn iawn ond cydiodd y pennill yn y werin a bu llawer iawn iawn o ganu arno.

Mae yna stori am ŵr yn croesi'r Migneint mewn niwl trwchus tua'r flwyddyn 1806 ac yn dod ar draws criw o bobl yn canu'r pennill ar ochr y ffordd ar eu taith i'r sasiwn yn y Bala.

Mae'r dôn Kilmorey yn ddelfrydol ar gyfer yr emyn yma. Mae hi yn y cywair lleddf ac mae yna syniad o frys ynddi (*urgency* fyddai`r gair Saesneg) sydd yn gweddu i'r dim â'r teimladau cryf sydd yn y geiriau. Mae'r nodyn olaf yn y llinell olaf ond un yn llawn angerdd ac yn cyfleu ystyr a naws y geiriau i'r dim.

Tybed mai'r pennill yma oedd gan John Ambrose Lloyd mewn golwg pan ysgrifennodd y dôn?

**JBW**





**CYFREITHWYR BREESE GWYNDAF**

**MEWN STRACH? MAWR NEU FACH? CYSYLLTWCH Â NI**
Trawsgludo Tai a Busnesau · Ewyllysiau · Profiant
Hawliad Iawndal · Niwed Personol · Materion Sifil
Ysgariad a Theulu · Cyfraith Amaethyddol · Troseddau di-annod

Apwyntiadau ar gael yn eich cartref, gyda'r hwyr
neu ar y penwythnos drwy drefniant

| **PORTHMADOG** | **PWLLHELI** | **ABERMAW** |
|---|---|---|
| 01766 512214/512253 | 01758 612362 | 01341 280317 |
| 60 Stryd Fawr | Adeiladau Madoc | Stryd Fawr |

**office@bg-law.co.uk**

*Yn gweithredu ar ran y gymuned ers dros 150 o flynyddoedd ...*

# Y BERMO A LLANABER

**Englyn**
Fe gofiwch i ni gael Holi Hwn a'r Llall gan Lowri Haf Cooke ddau fis yn ôl. Taid Lowri oedd y diweddar W D Williams, Y Bermo, a dyma englyn a ysgrifennodd sy'n gyfarwydd iawn i lawer ledled Cymru.

"O Dad, yn deulu dedwydd – y deuwn
Â diolch o'r newydd.
Can's o'th law y daw bob dydd
Ein lluniaeth a'n llawenydd."

Meddai Lowri, "Efallai y basa rhai ohonoch yn mwynhau darllen ychydig o gefndir difyr yr englyn a'i ymddangosiad ar sgrîn fawr Hollywood! https://lowrihafcooke.wordpress.com/.../adolygiad-ffilm.../ Hefyd, tybed faint sy'n gwybod nad 'o'r newydd' ond 'o newydd' sy'n gywir, fel y cadarnhaodd W D gyda golygyddion *'The Oxford Book of Welsh Verse'*? Gyda llaw, arferwn adrodd yr englyn bob dydd cyn cinio yn Ysgol y Wern, Llanisien (Caerdydd). Roedd Taid, mae'n debyg, ar ganol mudo o Garrog i Harlech pan gyfrannodd o'r englyn i gystadleuaeth Eisteddfod Llawr Dyrnu'r Sarnau yn Rhagfyr 1941 - newydd gael ei apwyntio'n brifathro yn y Bermo, ond angen symud ef, Nain, a'u tri o blant (roedd Mam yn ddyflwydd oed!) mewn car trwy'r eira, yng nghyfnod yr Ail Ryfel Byd, pan gyhoeddwyd ei fod wedi ennill ar yr englyn yn yr Eisteddfod Galan, felly ni chlywodd o am ei lwyddiant am rai dyddiau (os nad wythnosau!). Dwi'n meddwl mai symud at deulu Nain yn Harlech wnaethon nhw i gychwyn, cyn setlo yn Twyni ar North Avenue, y Bermo! Dyna ddwedodd Yncl Iolo wrtha i yn ôl yn 2011.
**Lowri Haf Cooke**


# TOYOTA HARLECH



COROLLA
HYBRID
NEWYDD
Dewch i roi cynnig ar yrru'r Corolla newydd!
Mae 'na ganmol mawr i hwn!

Ffordd Newydd
Harlech LL46 2PS
01766 780432
www.harlech.toyota.co.uk
info@harlech.toyota.co.uk

facebook.com/harlech.
Twitter@harlech_toyota


# Stolpersteine







Ydach chi wedi clywed am 'Stolpersteine'? "Stolpern" ... "baglu" yn Gymraeg, "Stein/Steine" ... "carreg/cerrig", felly "cerrig baglu".
Syniad artist o'r enw Gunter Demnig a aned yn ninas Berlin, Yr Almaen oedden nhw, fel math o goffa/gofeb i unrhyw un sydd wedi marw yn nwylo'r Natsïaid. Mae Stolpersteine yn fach, wedi eu gwneud o goncrid efo arwynebedd o efydd ac yn edrych yn union fel cerrig crwn efydd.
Mae Stolpersteine yn cofnodi dioddefwr/wraig y gyfundrefn Natsïaidd. Mae'r cerrig bach yma'n cofnodi enw'r aberth, dyddiad ei eni a be ddigwyddodd iddo fo, er enghraifft, ym mha wersyll angau y bu farw. Mae'r Stolperstein yn cael ei gosod yn y palmant y tu allan i'r tŷ lle roedd y dioddefwr yn byw. Mae 'na lawer ohonyn nhw i'w gweld yn strydoedd Berlin, yn enwedig yn yr ardaloedd Iddewig, ond ceir hyd iddyn nhw ledled y byd.
"Ond be ydy'r cysylltiad rhwng "Stolpersteine" a Llanbedr, meddech chi? Fel ydach chi'n gwybod yn barod, cafodd pump aelod o griw John Wynne eu lladd yng nghyffiniau Huchenfeld yn 1945. O ganlyniad, flynyddoedd wedyn, gefeilliwyd Llanbedr â Huchenfeld.
Er cof am y pump dyn a laddwyd yn Huchenfeld ei hun, mi ydach chi'n medru gweld pump Stolperstein yng nghanol y dref, un i bob un aelod o griw John Wynne, a'r bumed yn disgrifio be ddigwyddodd: "Carcharorion rhyfel oedden nhw. Achubwyd gan eu parasiwtiau. Eu cymryd nhw'n garcharorion. Eu llofruddio gan y Natsïaid a'r Hitler Youth 17eg Mawrth 1945."
Mae'r Stolpersteine wedi eu gosod y tu allan i adeilad ysgol flaenorol yn Huchenfeld lle carcharwyd aelodau criw John Wynne y noson cyn iddyn nhw gael eu saethu yn y dref.







Yr adeilad ysgol flaenorol.



Mae Petra Alexy, aelod grŵp *Cross of Nails*, Huchenfeld, yn glanhau'r Stolpersteine. Mae Petra a'i gŵr Wolfgang wedi ymweld â Llanbedr droeon dros y blynyddoedd, gan gynnwys er mwyn mynychu cynhebrwng John Wynne ym mis Tachwedd 2019.

# TALSARNAU, YNYS A LLANDECWYN

**Colli Vernon**



Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Natasha a'r merched, Idwal a Jean Roberts, Penrhyndeudraeth, a'r teulu oll yn eu profedigaeth drist o golli Vernon. Er iddo symud i fyw i'r Penrhyn o Dalsarnau yn hogyn ifanc, arhosodd rhan o galon Vernon yn Nhalsarnau, lle roedd ei daid a'i nain a llawer o'i ffrindiau yn byw. Ŵyr i'r diweddar Robin a Katie Williams, Rhianfa oedd Vernon. Bu ei angladd ddydd Gwener 17 Ebrill ym Mynwent Minffordd ym mhresenoldeb ei deulu agosaf. Rhoddwyd y gwasanaeth gan y Parch Christopher Prew ar lan y bedd. Rydym yn meddwl am y teulu ar yr amser arbennig o anodd yma ac anfonwn ein cofion cynnes atynt.

**Diolch**

Dymuna Natasha a'r merched, Idwal a Jean a'r teulu, ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a galwadau ffôn a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli Vernon. Diolch yn arbennig i'r Nyrsus Cymunedol am eu gofal caredig ohono yn ystod ei waeledd. Hefyd i Pritchard a Griffiths am eu trefniadau trylwyr ac i'r Parch Christopher Prew am ei wasanaeth teimladwy ar lan y bedd.

**Rhodd a diolch £10**

## CASGLU SBWRIEL



Diolch yn fawr iawn i Meirion Griffith, Yr Hen Bost, Talsarnau am godi sbwriel yn yr Ynys a Glan-y-wern a hynny yn hollol wirfoddol. Deallwn iddo lenwi nifer dda o fagiau duon. Diolch am y gymwynas, Meirion.


**Cydymdeimlad**

Estynnwn gydymdeimlad ag Eifion Williams, 5 Cilfor a'r teulu i gyd, yn eu profedigaeth o golli brawd Eifion, Richard Gwynfor, o Benmachno. Hefyd, daeth profedigaeth arall i'r teulu pan fu farw Marian Evans (gwraig Gwynogfryn gynt), chwaer yng nghyfraith i Derwyn, Mari, Gwen ac Ann, oedd yn byw yn Sir Fôn. Mae wedi bod yn gyfnod anodd iawn i deuluoedd gan nad oedd modd iddynt fynd i angladdau aelodau o'r teulu o dan yr amgylchiadau presennol, ac anfonwn gydymdeimlad a chofion atoch mewn adeg drist.

**Capel Newydd Talsarnau**

Er fod yr adeilad ynghau ar hyn o bryd, rydym yn parhau i gyfarfod fel eglwys. Bore Sul am 10.30, Cyfarfod Gweddi ar Skype. Nos Fercher am 7.30, Astudiaeth Feiblaidd ar Skype. Nos Sul am 6, Oedfa ar safle we y Capel, ar *Facebook* ac ar *Youtube*. Capelnewydd.org
*Facebook*- Eglwys Efengylaidd Ardudwy - Y Capel Newydd
*Youtube* - Eglwys Efengylaidd Ardudwy
Rhif ffôn - 01766 770953
Croeso i chi ymuno gyda ni. Cysylltwch os am fwy o wybodaeth. Mae'r llinell o emyn 'Nesáu at Dduw sy dda i mi' yr un mor berthnasol ar yr adeg yma ag y bu erioed.

## CARREG FEDD DDIDDOROL



Carreg fedd ddiddorol ym mynwent Eglwys Llandecwyn. Mae'r geiriau wedi eu copïo'n union r'un fath â maen nhw'n ymddangos ar y garreg, lle maen nhw'n rhy aneglur i bawb fedru eu darllen.

COF ADAIL
Yma Gorwedd Corph MARY JONES
Bryn y bowa bach
LLawforwyn OWEN EVANS yr hon
a fagodd 8 mlynedd ar 3 o Blant
W EVANS Plas LLandecwyn a rhan
fawr o Blant OWEN EVANS Cefntrefor;
a fu farw y 10fed dydd o Chwefror 1863
yn 83 mlwydd Oed

A ninnau yng nhrafangau pandemig y Covid-19 efallai ei bod yn haws i ni sylweddoli arwyddocâd y stori sydd y tu ôl i'r geiriau. Yma mae hanes dau deulu, yn amlwg wedi colli dwy fam. Tybed pa salwch aeth â'u bywydau? Marw ar enedigaeth plentyn, y diciâu, y frech wen neu'r diptheria efallai. Tadau'n cael eu gadael hefo teuluoedd mawr o blant a'r unig ddewis fuasai cael llawforwyn i'r cartref i gadw tŷ a magu'r plant neu ailbriodi hefo gwraig newydd.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau gwresog iawn i Barri a Nicola, y 'Ship Aground' ar enedigaeth eu merch fach, Ruby May Jones, ar 24 Mawrth. Anfonwn ein dymuniadau da iddynt fel teulu. (Ymddiheurwn am i hwn beidio ymddangos yn Llais Ardudwy mis Ebrill).

**Gwellhad**

Da yw deall fod Gruffydd Dei, Cefntrefor Fawr, wedi cael dod adref, yn dilyn llawdriniaeth annisgwyl yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Dymunwn adferiad iechyd buan iddo, a hefyd anfonwn ein cofion at Maureen wrth iddi hithau barhau i wella'n ara' deg. Pob hwyl a dymuniadau gorau i'r ddau.



**Llun o daith Edmund Bailey ar ben Rhinog Fawr wedi ei dynnu ym Medi 2012**

### TAITH GERDDED ER COF AM GWYNFOR

Yn sgîl yr argyfwng Covid-19 rydym wedi penderfynu peidio trefnu taith er cof am Gwynfor eleni. Hyderwn y gallwn aildrefnu yn 2021. Yn y cyfamser, edrychwch ar ôl eich hunain a chadwch yn ddiogel.

**Cofion cynnes, Iwan a Deborah**

# R J WILLIAMS IZUZU
## Talsarnau 01766 770286
## TRYCIAU IZUZU



DIONI

Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG




Lleuadd llawn ar Ebrill 7. Diolch i Anwen Roberts am y llun.

# CURO'R CORONA'N COGINIO
## Llinos Dobson

Dyma ychydig o ryseitiau sydd wedi ymddangos ar dudalen y wep-lyfr ar grŵp Curo'r Corona'n Coginio yn ddiweddar:

Dim wyau? Dim menyn neu fargarin? Dim clorian? Dim esgus!! Dyma gacen/pwdin siocled hawdd iawn sy'n defnyddio mesuriadau cwpan a MAYONNAISE!

**Cacen Siocled *Mayonnaise***

2 cwpan blawd plaen + dwy lwy dê powdwr codi
1 cwpan siwgwr
6 llwy fwrdd coco
1 cwpan mayonnaise
1 cwpan o ddŵr
1 llwy dê blas fanila

Cymysgu'r cwbwl gyda'i gilydd a rhoi'r gymysgedd mewn tun sgwâr 8" wedi'i iro. Coginio am tua 30 munud





**Crempogau tatws**

Tatws dros ben ers ddoe? Gellir eu defnyddio mewn crempogau tatws:

250g tatws stwnsh oer
75g blawd plaen + 1 llwy dê powdwr codi
2 ŵy
125ml llefrith
1 llwy fwrdd dda o cennin syfi

Cymysgu'r tatws yn dda i'w cael mor llyfn â phosib. Ychwanegu pob dim a'i gymysgu'n dda. Iro padell neu radell a choginio'r crempogau am rhyw 4 munud un ochor a 2 funud ar ôl eu troi. Mae rhain yn rhewi'n dda!





**Pwdin lemwn ysgafn**

1/2 twb mawr o iogwrt plaen
1/2 twb bach o gaws meddal [Philadelphia]
tua llwy bwdin siwgwr eisin
sudd a 'zest' un lemwn
1 'sachet' gelatine


Chwipio'r iogwrt, caws a siwgwr yn dda [tua 4-5 munud cyn ychwanegu y sudd lemwn a'r 'zest'. Paratoi y gelatine a'i gymysgu i mewn yn dda. Ei adael yn yr oergell am rhyw awr dda.



**'*Flat bread*' cartref**

4 llwy fwrdd dda o flawd codi
llwy de o halen
3-4 llwy fwrdd iogwrt plaen

Cymysgu'n dda. Os yn rhy wlyb, ychwanegu mwy o flawd, os yn rhy sych ychwanegu mwy o iogwrt!! Rhannu'r toes yn 4 a'u rholio neu ddefnyddio cledr eich llaw. Coginio ar badell/radell am tua 3 munud un ochr a 2 funud ar ôl troi.





# JOHN GWYNDAF WILLIAMS 1932-2020 Ainsdale, Southport



Ymddiddorai Gwyndaf Williams yn ei gefndir, ei deulu, yn ei gerddoriaeth, ac yn y ffydd a fu'n gynhaliaeth iddo ar hyd ei oes. Ganwyd ef mewn fferm o'r enw Tyddyn Sion Wyn, yn ardal Talsarnau ar 13 Rhagfyr, 1932 i John a Lena Williams. Ef oedd yr ail blentyn o chwech o blant, a chafodd pob un enw persain Cymraeg; Ieuan, Deilwen, Heulwen, Gareth a Bryn fel ef ei hun.
Soniai am y fagwraeth hyfryd, deuluol Gymraeg a gafodd mewn capel ac ysgol. Roedd ganddo daith bell o dair milltir i Ysgol Gynradd Talsarnau, cyfanswm o chwe milltir y dydd, ymhob tywydd, glaw, eira a heulwen haf. Dangosodd yn yr ysgol gynradd gryn ddawn a llwyddodd i basio Arholiad 11+ gyda mynediad i Ysgol Ramadeg y Bermo. Sylweddolodd yn y blynyddoedd hynny nad oedd am ddilyn troed ei dad John a ffermio, a gadawodd yr ysgol i ddilyn cwrs peirianneg drydanol yng Ngholeg Technegol Wrecsam. Derbyniodd gyfle i fod yn brentis gyda chwmni MANWEB oedd yng ngofal cyflenwi trydan i gartrefi a chymunedau Glannau Mersi a Gogledd Cymru.
Dechreuodd ar ei yrfa yn Wrecsam ac yno y cyfarfu gyda June, gweithiai hithau i'r un cwmni. Bu'n ofynnol iddo wneud gwasanaeth milwrol ac ymunodd gyda chatrawd REME. Yn ystod y cyfnod hwn y penderfynodd ef a June ymuno mewn glân briodas. Priodwyd hwy yn Wrecsam ar 28 Mehefin 1958, ond yn y cyfnod hwn cafodd ei symud i wasanaethu'r cyhoedd ym Machynlleth a'r cyffiniau, a byw yn y dref hynafol honno. Yno y ganwyd y ferch, Julie ym mis Chwefror 1960 a wedyn symudwyd i bentref Ceinws. O Fachynlleth symudodd i gymryd cyfrifoldeb dros MANWEB yn nhref Aberystwyth a symud i fyw fel teulu i bentref Capel Bangor ar gyrion y dref. Yno y ganwyd y mab, Mike ym mis Mawrth 1963. Arhoswyd yn nyffryn Rheidol hyd ddiwedd y chwedegau pryd y dyrchafwyd ef i ganolfan MANWEB yn Lerpwl. Symudwyd i fyw i Maghull. Fel y mwyafrif o Gymry alltud, bu hiraeth dirdynnol arno am y Gymru y magwyd ef ynddi ac a fu fyw ynddo am 38 mlynedd. Symudodd y mwyafrif ohonom i Lannau Mersi yn ein dauddegau. Ond fe ddaeth ymwared, gan iddo ddod o hyd i Gapel y Presbyteriaid Cymraeg Waterloo lle y gweinidogaethai y Parch R Maurice Williams. Yn y cyfnod hwnnw y daeth o hyd i Gôr Meibion Aughton. Daeth yn hynod o weithgar o fewn y Côr. Bu am gyfnod yn Gadeirydd a chafodd bleser mawr pan ymunodd y mab gyda'r Côr. Yn y rihyrsal bob nos Lun, byddai'r ddau yn ei morio hi ac yn mwynhau y gwmniaeth, y cyngherddau a'r canu lle yr oedd yn ei elfen. Gweithia'n galed yn ei alwedigaeth, oriau hir, ac ni chollodd ddiwrnod o'i waith. Derbyniodd Wobr y Cwmni am ei ffyddlondeb ond yn fwy na hynny, cyrhaeddodd brif nod ei broffesiwn o fod yn Brif Beiriannydd Trydan Cwmni MANWEB. Cryn anrhydedd a haeddai am ei allu, ei foneddigeiddrwydd, ei ymroad a'i holl gyraeddiadau ym myd technoleg.
Ymddeolodd yn 1993 a symud i fyw i Ainsdale ger Southport; pentref hyfryd o fewn golwg y môr. Ymddiddorodd yn ei deulu. Priododd Julie a Peter Joyce yn 1985 a symud i fyw i Southampton lle ganwyd chwech o blant a enwyd yn James, Jenni, Jane, Joanna, John a Jacob. Byddent yn teithio yno a'r teulu yn mwynhau eu gweld. Taid a Nana yn bwysig. Priododd y mab, Mike gyda Juliet yn 1986 a ganwyd tri o blant, Louise, David a Laura. Ac felly yr oedd Gwyndaf a June yn gyfoethog gyda naw o wyrion a wyresau. Erbyn hyn, llonwyd eu bywydau gyda phedwar o orwyrion a gor-wyresau, Rosie, Patrick, Finn ac Esme. Dyn caredig, cariadus a chyfeillgar oedd Gwyndaf, yn cysegru ei fywyd i'w yrfa, ac yn arbennig i'w deulu. Cymro a ymffrostiai yn ei iaith a'i ganu a'i grefydd a daliodd yn aelod hyd y diwedd yng nghapel Bethania. Trwythwyd ef yn ei grefydd o'i blentyndod a bu'r ffydd honno yn help iddo pan ddaeth poen a breuder y corff i'w flino.
Bu farw ar Sul, 8 Mawrth yn Ysbyty Southport a bellach y mae ei briod mewn cartref gofal. Gwasanaethwyd yn ei arwyl gan ei Weinidog, yr Athro Barchedig D. Ben Rees ar bnawn Gwener, 20 Mawrth yn Amlosgfa Burscough a hynny mewn amgylchiadau anodd y feirws sydd yn ein hamgylchynu. Diolchwn am ei fywyd gwerthfawr, 'cysga'n dawel Dad' oedd geiriau y plant.

**D Ben Rees**

Cyhoeddwyd yr ysgrif goffa hon gyntaf yn Yr Angor, papur glannau Mersi a Manceinion. Diolch am ganiatâd parod y golygydd i'w chyhoeddi yn Llais Ardudwy.

# CYMORTH CRISTNOGOL AR LEIN!

Daeth feirws y goron â dioddefaint ac ansicrwydd i gymaint, yma a thramor, gan wthio'i hun i flaen ein meddwl, ein sgyrsiau a'n gweddïau. Ac rydan ni i gyd yn gorfod addasu. Mae eglwysi Cymru hefyd wedi addasu, wrth iddynt gael eu cau allan o'u hadeiladu. Ond mae nifer wedi ymateb i'r her a bellach ceir gwledd o oedfaon a myfyrdodau ar lein i'n helpu i barhau i addoli.
Yn yr un ffordd, mae Cymorth Cristnogol hefyd yn gorfod addasu. Am y tro cyntaf ers degawdau lawer, ni allwn gynnal yr Wythnos Cymorth Cristnogol arferol ym mis Mai eleni. Ond tydi hynny ddim yn golygu ein bod am wneud dim.
Bydd cyfle i gynnal y gweithgareddau arferol yn yr hydref, ond mae cyfle i ymuno mewn gweithgareddau ar lein ym mis Mai. Mae Trefn Gwasanaeth, Gweddïau a Nodiadau Pregeth i gyd yn barod ar ein gwefan. Gallwch eu defnyddio ar eich cyfrifiadur neu ddyfais, neu eu hargraffu ar bapur adref.
I'r eglwysi hynny sy'n paratoi oedfaon ar lein pob Sul i'w haelodau, beth am ddefnyddio'r Trefn Gwasanaeth arbennig sy wedi ei pharatoi ar gyfer Sul 10 Mai? Mae'n troi o amgylch yr arfer pwysig o olchi dwylo.



Nid yw cariad yn darfod byth. Mae'r Coronafirws yn effeithio arnom i gyd. Ond mae cariad yn ein huno i gyd. Gadewch inni i gyd uno dros Wythnos Cymorth Cristnogol a sefyll mewn undod dros y mwyaf bregus yn ein byd.
Mae'r wybodaeth ar ein gwefan https://www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/coronafirws

# DYDDIADUR GARDDIO





Dydd Llun
"Be wnawn ni heddiw?" ydi'r cwestiwn yn ein tŷ ni bob bore yn ystod y cyfnod hir yn hunan-ynysu. Gyda'r haul yn tywynnu nid yw'r ateb yn un anodd. Mynd i'r ardd, wrth gwrs, a diolch fod ganddom le i ddianc iddo yn ystod yr amser cythryblus yma. Amser i anghofio problemau'r byd ac ymgolli mewn chwynnu, plannu a thrin y lawnt.
Mae blodau'r gwanwyn wedi bod yn well nag erioed eleni diolch i'r tywydd braf a sych. Y magnolia a'r camellia yn edrych yn fendigedig yn erbyn yr awyr las.
Dydd Mawrth
Wedi bod yn tyrchu yn y bocs hadau i chwilio am rhywbeth i'w blannu y gallwn ei fwyta, a dod o hyd i hadau egin pys (pea shoots); mi fydd rhain yn flasus iawn hefo salad. Rhuddugl (radish) oedd yr unig baced arall ar ôl yn y bocs felly plannu ychydig o'r rhain hefyd yn gwmni i'r egin pys yn y salad. Maent bellach yn y tŷ gwydr ac yn barod i'w bwyta mewn rhyw 3 wythnos gyda lwc.
At y tatws cynnar wedyn. Gan nad oes digon o le yma i'w plannu yn syth yn yr ardd, chwilio am y bagiau yn y sied a dyna y 'Sharps Express', hoff datws Dad, yn saff yn y pridd. Gan nad oedd gennyf ddigon o fagiau pwrpasol i'w plannu i gyd, cael hyd i hen fag compost a'i dynnu tu chwith allan a phlannu'r gweddill yn hwnnw. Siawns y bydd 'na ddigon o bryd i'r teulu i gyd rŵan mewn rhyw 3 mis.
Dydd Mercher
Wedi cael ychydig o law dros nos oedd yn fendithiol iawn gan fod y pridd mor sych. Mi fydd y chwyn wrth eu bodd ac fe fydd raid cadw llygad barcud na chânt gyfle i greu had a lledaenu i bob man. Mae ychydig o luosflwydd yma sydd angen eu gwahanu i wneud mwy o blanhigion o gwmpas yr ardd drws nesa. Mae Jack a Cari am ofalu eu bod yn cael digon o ddŵr nes y byddant wedi ymgartrefu yn eu cartref newydd – mi gawn ni weld! Wedi hollti'r fflocs (phlox) gwyn sydd yn gwneud twmpathau swmpus ymhen amser ac fe fydd angen rhoi y 'Chelsea Chop' (eu torri i lawr i'w hanner) iddynt diwedd mis Mai i'w rhwystro rhag mynd yn rhy dal a chwythu drosodd yn y gwynt.



Dydd Iau
Heddiw rwyf am geisio symud clematis sydd wedi ei phlannu yn y lle anghywir. Mi fydd raid gofyn i Prysor wneud hynny gan y bydd yn dipyn o her gan ei bod wedi ei phlannu ers tro. Rwyf am ei phlannu mewn pot yn erbyn ffens drws nesa – digon o le iddi ddringo yn hapus yn y fan honno ond fe fydd rhaid cofio ei dyfrio yn ddyddiol. Rwyf wedi ychwanegu dipyn o flawd gwaed, pysgod ac esgyrn i'r compost i roi y siawns orau iddi ffynnu.
Dydd Gwener
Tywydd ddim cystal heddiw ond yr ardd yn falch iawn o weld y glaw. Wedi sylwi fod y degeirian (orchid) Dendrobium yn y tŷ yn codi allan o'i bot ac angen ei wahanu a'i ail-botio ond ddim syniad sut i fynd o'i chwmpas. Mynd ar Youtube ar y cyfrifiadur a chael cyfarwyddyd arbennig o dda yno. Symud y pot i'r tŷ gwydr a thynnu y planhigyn allan ar y bwrdd. Gwahanu'r planhigyn yn dri gyda llif fechan (angen dipyn o fôn braich) ac wedi tacluso'r hen wreiddiau, eu hail-botio mewn compost tegeirian arbennig ar gyfer y gwaith. Mae hwn yn debyg i risgl coeden ac yn llac ei ansawdd sy'n golygu fod dŵr yn treiddio drwyddo yn hawdd. Edrychaf ymlaen rŵan at gael blodau arbennig o hardd yn gynnar y flwyddyn nesaf.





Penwythnos y Pasg
Erbyn hyn mae'r ardd yn llawn lliw a gwres yr haul wedi gwneud i'r planhigion ymddangos fel hud allan o'r pridd. Cefais dipyn o fraw wrth chwynnu o amgylch y lilis o weld fod chwilen y lili (lily beetle) felltith wedi cael hyd iddynt yn barod. Fe fydd raid eu harchwilio yn ddyddiol a'u difa cyn iddyn nhw ddifetha'r planhigion. Gan eu bod yn goch llachar maent yn hawdd eu gweld a'u difa. Mae chwistrell ar gael ar gyfer gwneud hyn ond nid wyf yn defnyddio llawer o gemegau yn yr ardd os na fydd yn wirioneddol raid oherwydd ei fod yn lladd y pryfetach llesol hefyd.
Wedi derbyn anrheg gwerth chweil heddiw – llond bocs o blanhigion yn cynnwys planhigion tomatos Gardeners' Delight ac Alicante a letys gan Gwenda. Yn wahanol i mi mae yn hoffi tyfu planhigion o had a'u meithrin. Anrheg gwerth ei gael ar amser pan maen nhw fel aur. Does dim modd dod o hyd i unrhyw blanhigyn ar lein ar hyn o bryd; pawb wedi gwerthu allan. Maen nhw yn weddol fach rŵan, felly fe'u cadwaf yn eu potiau bach cyn eu trawsblannu i botiau mwy a'u cadw yn y tŷ gwydr am ychydig wythnosau rhag ofn inni gael rhew. Mae wedi cynnwys planhigion blodyn haul yn y bocs ac fe fydd y plant wrth eu bodd yn edrych ar y rhain yn tyfu i gael gweld gan bwy fydd yr un talaf. Ychydig bach o law yn y nos, a phwy fyddai'n meddwl y byddwn yn gwirioni ar weld glaw ond mae'r ardd yn sych grimp ac yn gweiddi am leithder. Mae'r tyfiant, er hynny, wedi bod yn anhygoel yn yr wythnosau diwethaf gyda'r planhigion i gyd yn mwynhau'r haul cynnes. Siawns am ardd liwgar iawn yn gynnar eleni - rhywbeth i edrych ymlaen amdano yn yr wythnosau sydd i ddod.
**Margaret Roberts, Cilfor**

# HYSBYSEBION
Telerau gan Ann Lewis 01341 241297

CYMRAEG Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru CYMRAEG

## ALAN RAYNER
07776 181959
**ARCHEBU A GOSOD CARPEDI**



Sŵn y Gwynt, Talsarnau
www.raynercarpets.co.uk

## ALUN WILLIAMS
TRYDANWR

* Cartrefi
* Masnachol
* Diwydiannol
**Archwilio a Phrofi**

**Ffôn: 07534 178831**
e-bost:alunllyr@hotmail.com

## Tafarn yr Eryrod
Llanuwchllyn
**01678 540278**



Bwyd cartref blasus
Cinio Dydd Sul
Dathliadau Arbennig
Croeso i Deuluoedd

## JASON CLARKE
Maesdre, 20 Stryd Fawr
Penrhyndeudraeth
LL48 6BN



Arbenigwr mewn gwerthu a thrwsio peiriannau sychu dillad, golchi dillad a golchi llestri.



## GERAINT WILLIAMS
Gwrachynys,Talsarnau
ADEILADWR
Gwarantir gwaith o safon
Ffôn: 01766 780742 / 07769 713014

## GWION ROBERTS, SAER COED
**01766 771704 / 07912 065803**



**gwionroberts@yahoo.co.uk**
dros 25 mlynedd o brofiad

## MELIN LIFIO SYMUDOL
Gadewch i'r felin ddod atoch chi!
Y cyntaf i'r felin gaiff lifio!
www.gwyneddmobilemilling.com

## GERAINT WILLIAMS
Gwrachynys,
Talsarnau
01766 780742
07769 713014

## Sammie Solutions
Gwasanaethau Cadw Llyfrau
SAGE
Cyfrifon
Paratoi Cyflogau
TAW
Hunanasesiad
a mwy

**Sammie Cooper BA**
Lefel 4 Diploma Mewn Cyfrifeg, Trethiant a Moeseg - AAT
Harlech - Gwynedd
07786554884
sammiesolutions@outlook.com

## CAE DU DESIGNS
DEFNYDDIAU DISGOWNT
GAN GYNLLUNWYR
**Stryd Fawr, Harlech**
**Gwynedd LL46 2TT**
01766 780239
ebost: sales@caedudesigns.co.uk
Dilynwch ni:

***Oriau agor:***
***Llun - Sadwrn***
***10.00 tan 4.00***

## GWASANAETH CADW CYFRIFON ARDUDWY
Cysylltwch â ni am y gwasanaethau isod:

- **Cadw llyfrau**
- **Ffurflenni TAW**
- **Cyflogau**
- **Cyfrifon blynyddol**
- **Treth bersonol**

**info@ardudwyaccounting.co.uk**
**07930 748930**

## E B RICHARDS
Ffynnon Mair
Llanbedr
01341 241551
**CYNNAL EIDDO O BOB MATH**
***Toi gyda llechi, gosod brics, plastro, teilsio lloriau a waliau, gwaith coed ayyb.***

## Llais Ardudwy
Drwy'r post
Iolyn Jones 01341 241391
Tyddyn Llidiart, Llanbedr
llaisardudwy@outlook.com

E-gopi
llaisardudwy@outlook.com
£7.70 y flwyddyn am 11 copi

## argraffu da
*am bris da*



y Lolfa
holwch Paul am bris ar **paul@ylolfa.com**
01970 832 304 **www.ylolfa.com**

## Pritchard & Griffiths Cyf.
Tremadog, Gwynedd LL49 9RH
www.pritchardgriffiths.co.uk
01766 512091 / 512998

TREFNWYR ANGLADDAU

Gwasanaeth personol dydd a nos
Capel Gorffwys
Ceir angladdau
Gellir trefnu blodau a chofeb

# LLYFRGELLOEDD GWYNEDD AR GAEL O ADREF



Ydych chi'n gweld colled heb eich llyfrgell lleol? Wel, diolch i'r dechnoleg mae modd lawr lwytho pob math o adnoddau gan Lyfrgelloedd Gwynedd ar-lein.
O ganlyniad i Covid-19, fe fu'n rhaid i lyfrgelloedd a mannau cyhoeddus gau. Ond, diolch i'r cynnig digidol sydd ar gael trwy Lyfrgelloedd Cymru, mae modd cael gafael ar bob math o adnoddau am ddim trwy gyfrwng unrhyw ddyfais sydd gennych wedi'i gysylltu gyda'r we - er enghraifft e-lyfrau, e-lyfrau llafar trwy Borrowbox, e-gylchgronau ac e-gomics trwy 'RB digital' a gwefan hel achau 'ancestry'.
Mae modd cael yr adnoddau hyn yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac yn addas i oedolion, plant a phobl ifanc. Dyma gyfle da i bawb gael adnoddau i'n cadw ni'n ddiwyd mewn cyfnod poenus.
Gallwch weld popeth sydd ar gael trwy ymweld â www.gwynedd.llyw.cymru/catalogllyfrgell ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau perthnasol.
Cofiwch fod angen bod yn aelod o'ch Llyfrgell yn gyntaf! Ond mae ymaelodi yn broses syml ar y wefan ac yna gallwch gael mynediad at yr holl adnoddau digidol.

# CADWCH DRAW!



**Liz Saville Roberts**

Roedd cryn helynt dros y Pasg eleni oherwydd bod cwmni yn hysbysebu lleoliadau gwyliau ledled Cymru. Yn ôl ein haelod seneddol, Liz Saville Roberts, gwelwyd un hysbyseb, sydd wedi ei dynnu i lawr erbyn hyn, yn annog 'dihangwyr o ddinas Covid-19' i ddod i'w llety yn Harlech.
Bu Liz Saville Roberts yn gofyn ers wythnosau i gwmnïau gwyliau mawr beidio hysbysebu am y tro. Mae hi wedi cysylltu ag Airbnb i drafod y mater.
Mae'r AS yn pryderu am fynediad pobol i gyfleusterau gofal iechyd a meddyginiaeth, yn ogystal â thensiwn cynyddol yn ein cymunedau.
Er hynny, mae pobl yn dal i ddod i Gymru er mwyn osgoi'r ardaloedd poblog.
Diolchwn i Liz Saville Roberts am adlewyrchu'r farn gyffredinol yn yr ardal hon.

Mae ôl-rifynnau
Llais Ardudwy
i'w gweld ar y we.
Cyfeiriad y safle yw:
http://issuu.com/llaisardudwy/docs

Llais Ardudwy

**YN EISIAU IS-OLYGYDDION I'R PAPUR HWN**

Llais Ardudwy


**R J Williams Honda**
**Garej Talsarnau**
**Ffôn: 01766 770286**





STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes



MID Wales REMOVALS
www.midwalesremovals.co.uk

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr— Wedi ei wresogi

Siop Ar-Lein: www.boxshopsupplies.co.uk
Bocses a 'bubblewrap' ar lein




Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk
Heol Y Doll, Machynlleth, Powys, SY20 8BQ
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL


# ENGLYN DA

**Y GWREIDDYN**
Mae'n wir y gwelir argoelyn - difai
Wrth dyfiad y brigyn;
Hysbys y dengys y dyn,
O ba radd y bo'i wreiddyn.

Tudur Aled, c.1480-1525



# EFFAITH FEIRWS Y GORON AR






## DELIO EFO COVID-19 YN VANCOUVER, CANADA

Fel pob gwlad arall yn y byd, mae pandemig Covid-19 wedi effeithio arnon ni yng Nghanada. Wrth ysgrifennu'r pwt yma mae'r nifer o bobol gyda'r haint yn disgyn yn ddyddiol yma'n Vancouver, British Columbia ond mae'r nifer yn dal i gynyddu yn nwyrain y wlad, yn enwedig yn ninasoedd Toronto a Montreal.

Mae hi wedi bod dros fis inni fel teulu yn hunan-ynysu, a hynny heb feddwl y byddai hyn yn digwydd i ni. Heb i fy ngwraig Marissa a finnau wybod hynny, buom mewn cysylltiad dair gwaith â phobl a fyddai'n dioddef o'r haint Covid-19; wrth fynychu cyfarfodydd yn rhinwedd ein swyddi a hyd yn oed mewn cinio codi arian at ysgol y plant. O ganlyniad, bu'r ddau ohonom yn gweithio o adref cyn y cyfyngiadau swyddogol.

Mae gweithio o adref yn weddol anodd imi gan fod fy ngwaith bob dydd yn ymwneud â rhedeg adran meicroscop electron mewn canolfan ymchwil gwyddonol ym Mhrifysgol British Columbia. Ar hyn o bryd, dwi'n cael cyfle i ysgrifennu papurau gwyddonol a mynychu ambell gyfarfod ar y we. Gwaith pennaf Marissa y dyddiau yma ydi paratoi cwricwlwm dysgu ar lein i'r myfyrwyr yn yr adran ddeintyddiaeth yn y Brifysgol. Mae hyn yn golygu dipyn o waith.

Yn ffodus, nid yw ein bywydau tu allan o'r gwaith wedi newid rhyw lawer. Wrth gwrs, rhaid aros i mewn ond mae'r gwaith a gweithgareddau'n dal i ddigwydd diolch i'r we. Mae'r we wedi bod yn hynod bwysig i fedru gweithio o adref ond hefyd i gadw mewn cysylltiad gyda ffrindiau a theulu ac mae hyn wedi bod yn help mawr i'r plant ymdopi gyda'r sefyllfa. Caiff Mairead bleser yn chwarae gyda'i ffrindiau drwy gyfrwng y we ac mae Deian yn sgwrsio gyda'r hogia'n ddyddiol.

Yn ffodus iawn, mae'r plant a finnau wedi medru dal ati gydag ymarfer karate gyda'r athro ar y we. Yr wythnos hon mae plant wedi ailddechrau cael gwersi piano.

Ers pythefnos, mae'r plant wedi bod yn mynychu'r ysgol bob dydd ar lein. Mae'r hen blant yn cadw'n brysur iawn drwy gydol y dydd erbyn hyn ac mae'r ysgol wedi dod a threfn yn ôl i'r diwrnod a'r wythnos. Rydym ninnau yn gweld eisiau athrawon a'r ysgol fel rhieni gan fod ceisio crynhoi diwrnod o waith mewn ychydig oriau, bwydo'r teulu, cadw tŷ a helpu gyda gwaith cartref yn waith caled iawn!

O ran bwyd, yr ydym yn dal i gadw i'r drefn o siopa unwaith yr wythnos, ac yn defnyddio gwasanaeth ar lein i brynu popeth arall sydd ei angen. Yr unig gŵyn sydd gennyf ydi ei bod hi'n anodd iawn cael papur tŷ bach yma - tebyg iawn i fel y mae hi yng Nghymru yn ôl Mam a Dad. Beth sydd ar bobol dwedwch yn gor-brynu y fath beth?!

Er bod sefyllfa'r feirws yn gwella bob dydd yn ôl yr awdurdodau, rydym yn paratoi ein hunain i fod adref hyd mis Mai o leiaf. Hyderaf y bydd diwedd i'r hunan-ynysu ond mae hi'n bwysig i beidio rhuthro'n ôl i'r drefn arferol yn rhy fuan. Felly does dim amdani ond dal ati a bod yn ddiolchgar ein bod yn iach.

**Gethin Owen, Coed Uchaf, Dyffryn Ardudwy gynt.**






## GOFID Y COVID-19 YN ONTARIO, CANADA

**Annwyl hen gyfeillion,**

Fel llawer o wledydd eraill yn yr hen fyd yma mae'r Cofid-19 wedi ein taro ni yn Ontario. Cyn mynd yn bellach mae angen rhoid un neu ddau o ffeithiau yn eu lle. Yn ôl y cyfrifiadur, mae 9,525 o bobl wedi eu taro hefo'r clwy yn Ontario, a 478 wedi marw. Edrych ar draws Canada, mae 32,000 gyda'r salwch, ac 1,300 wedi colli eu bywydau, ac wrth gwrs mae'r rhifau yn codi wrth y diwrnod. Wrth gwrs, y llefydd sydd yn cael eu taro ydy'r trefi, gyda'u poblogaeth i'r filltir sgwâr yn uchel.

Ordor y dydd yw cadw yn neu o gwmpas y tŷ, mynd allan i siopa am fwyd neu ddiod, a chadw beth bynnag chwe troedfedd oddi wrth yr unigolyn nesaf – mewn gwirionedd, synnwyr cyffredin. Mae'r rhan fwyaf o eitemau bwyd yn dal ar gael yn y siopau ac mae'n bosib eu prynu nhw ar lein. Papur yr hows yn ôl ar silffoedd y siopau, gan fo pobol y dref wedi prynu cymaint, maen nhw wedi sylweddoli bod rhaid bwyta llawer mwy i achos ei ddefnydd. Diolch am yr iPad, gyda'i weithredoedd, mae pawb yn cysylltu gyda'i gilydd trwyddo, a'r teulu yn sgwrsio trwy 'face-time'.

Mae'r ffaith fod y rhan fwyaf o fusnesau lleol wedi cau i lawr wedi rhoi gwaith i mi am gyfnod o wythnosau. Bu'n rhaid i'r gwaith, ail-bwyntio wal y tŷ, fod yn hobi newydd i mi eleni ond yn siŵr, byddaf yn chwilio am yr wialen bysgota, wedi darfod y gwaith.


Ar hyn o bryd does neb yn gwybod pryd daw y feirws i ben, ond pan ddaw i ben, ys gwn i beth fydd yn mynd trwy ein meddyliau? Yn India maen nhw'n gweld yr Himalaya am y tro cyntaf ers deng mlynedd ar hugain, ac yn Venice mae'r dŵr yn glir, a lluniau o'r gofod yn dangos y cwmwl dros Tsieina wedi mynd. Ar ôl y pla locustiaid yn Affrica, y tanau gwyllt yn Awstralia ac rŵan y Cofid 19, does dim rhaid i bregethwyr chwilio yn bell iawn am destun i'r pregeth at y Sul. Y gwir amdani hi, bod Syr David Attenborough, David Suzuki a rhai eraill ym myd natur, yn hollol gywir, wrth roi eu barn ar stad y blaned – yn anffodus, does neb yn cymryd sylw. Pob hwyl i bawb yn y fro a chadwch yn iach.

**Colin, Bron Fair, Llanfair gynt.**



**Mairead a Deian yn cael gwersi karate ar y we**

# RAI O'N DARLLENWYR TRAMOR









## COVID-19 YN NE AFFRICA

**Ballito, De Affrica.**
**Annwyl deulu, ffrindiau a thrigolion bro Ardudwy,**
Dyma ni yn y flwyddyn 2020, ac yn teimlo yn ddigalon ac yn eithriadol o boenus, ond er hynny yn ceisio gwenu er gwaethaf y feirws sydd wedi ein caethiwo i'n cartref.
Rydym wrth lwc yn byw yn agos i'r siopau, ac mae hawl gennym i fynd – ond mor anaml â phosib, i brynu bwyd neu i'r siop fferyllydd, dim diod feddwol o gwbl. Byddwn yn gwisgo masg ac yn cadw pellter, wrth gwrs, a dychwelyd adref yn sydyn iawn. Mae'r silffoedd yn llawn yma, gan nad oes neb wedi siopa rhag ofn, fel petai. Mae gennym hawl i gerdded o amgylch ein cartref, ond ddim ar hyd y ffordd, felly gwneud hynny nes mynd yn wirion! Dwi ddim yn meddwl fod hobi newydd yn syniad da ar hyn o bryd, felly chwarae Spider a Skypio yma ac acw, darllen Express International a chylchgrawn Hello, gwrando ar newyddion Sky yn ddi-ddiwedd gan ddisgwyl clywed am rhyw wyrth. Mae fy nghypyrddau yn daclusach nac erioed, a'r tŷ yn 'spotless'. Mae'r llywodraeth yma wedi ymestyn y 'lockdown' hyd at ddiwedd Ebrill. Mae 2,506 o bobl yn dioddef o'r feirws a 34 o farwolaethau ar hyn o bryd, sydd ddim yn rhy ddrwg.
Rhaid diweddu yn awr, felly gyda'm cofion, a gobeithio y caf eich gweld cyn bo hir.
**Enid, Glasfryn gynt, Harlech**

## COVID-19 YN IWERDDON





**Helo o'r Ynys Werdd!**
Gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel rhag y Cofid-19
Mae Katherine a minnau mor falch fod y Gwyddelod wedi gwneud y penderfyniad cynnar i osod gwaharddiadau arnon ni. Rydym wedi ein cloi yma ers 26 Mawrth a minnau mewn cocŵn [sobor o beth ydi mynd yn hen!]. Katherine sy'n mynd i'r siop i Longford fel mae angen. Mae digon ar gael oddi gerth blawd. Mae pawb yn pobi bara. Rydan ni'n cael bara, llefrith a'r papur newydd yn lleol. Dwi mor falch fod y garej gen i i'm cadw yn brysur. Dwi wedi bod yn gweithio ar fy ngheir ac yn dal i fyny efo'r gwaith sydd angen ei wneud ers talwm. Rydan ni yn yr ardd bob dydd ac yn diolch am y tywydd braf. Rydan ni wedi peintio'r tŷ i gyd! Edrych ymlaen rŵan am i bethau wella yma, yn enwedig i gael mynd am beint o'r gwin du [wedi laru ar lager!] a chael gweld y teulu unwaith eto. Dwi ddim yn gweld ni'n cael dod i Dalsarnau am sbelan.
Cofion at bawb,
**Katherine a Bili, Talsarnau**



**Brenda Turner**




## COVID 19 – GOLWG AR Y SEFYLLFA YN SELAND NEWYDD 28 EBRILl 2020

Ar 15 Mawrth 2019, bu ymosodiad terfysgol ar ddau fosg yn ninas Christchurch ac fe laddwyd cyfanswm o 51 o bobl. Bu'r digwyddiad yn sioc i'r wlad. Bydd rhai ohonoch yn cofio'r gwasanaeth coffa a arweinwyd gan y Prif Weinidog Jacinda Adern. Dywedodd ein bod ni'n un. 'Ko tātou, tātou.' Mae'r geiriau cynhwysol hyn wedi bod yn gymorth mawr i'r wlad dros y 5 wythnos ddiwethaf ers dyfodiad Covid 19.
Roedd tair ffactor yn gymorth i'r wlad ymdrechu i 'ddileu' y feirws.
Y ffactor gyntaf oedd y ffaith ein bod ni'n wlad mor anghysbell ac yn ynys – roedd yn weddol hawdd selio a chau ffiniau ei phoblogaeth o 5 miliwn.
Yr ail ffactor oedd y tywydd braf. Mae'r tywydd wedi bod yn heulog ac yn gynnes - gan alluogi pobl i fynd allan i wneud ymarfer corff yn lleol.
Fodd bynnag, yn fwyaf unigryw ac eithriadol, mae arweinyddiaeth y Prif Weinidog wedi bod yn rhagorol. Mae ei sgiliau cyfathrebu tosturi yn cael eu hamlygu bob dydd. Does dim yn ymosodol yn ei hymarweddiad. Wrth ailddatgan disgwyliadau llym o gadw at y cyfyngiadau a osodwyd, mae hi wedi gwneud hyn yn ddeheuig braf gan ddangos empathi mawr. Mae ei hagwedd yn gynnes ac agos atoch, gan annog caredigrwydd neilltuol. Mae wedi gofyn i bobl Seland Newydd edrych ar ôl eu cymdogion a gofalu am y rhai bregus yn y gymdeithas. Mae'n pwysleisio aberth er lles pawb.
O ganlyniad i hyn, mae'r wlad wedi uno y tu ôl iddi ac mae bron pawb wedi cydymffurfio â sicrhau bod yr holl wasanaethau hanfodol wedi cydweithredu. Mae pobl wedi aros adref ac wedi hunan-ynysu - mae pawb yn ei swigen ei hun!
Mae ein Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd, Dr Ashley Bloomfield a'r Prif Weinidog, wedi wynebu sesiynau briffio dyddiol, gan ddatgelu cyd-ddealltwriaeth llwyr rhwng gwyddoniaeth a'r llywodraeth. Hyd yma bu 19 marwolaeth allan o gyfanswm o 1472 o achosion. Mae rhyw 270 yn dangos arwyddion o'r feirws ac mae 82% o'r bobl a gafodd y salwch wedi gwella.
Heddiw, symudodd y wlad i Lefel 3, yn ddiogel ac yn dawel ei meddwl gan ei bod yn cael ei harwain gan unigolyn rhyfeddol, cydymdeimladol a thosturiol sy'n siarad yn glir efo ni. Seland Newydd Lwcus.
Ko tātou, tātou.
**Brenda E Turner**
**merch Margaret Morris, Pentre Canol, Dyffryn Ardudwy, gynt**

# DEI A MAI ROBERTS YN NAMIBIA



Meisie yn ei chôt goch.

Dyma Meisie. Mae'n gweithio mewn gwersyll ger Parc Cenedlaethol Etosha. Bu David a minnau'n aros mewn pabell yma gydag impala yn crwydro o gwmpas yr ardd, madfall yn crwydro'r waliau a phob math o adar fel corws yn ein cyfarch. Gadawsom becynnau o amrywiol ddillad pan fuon ni ar daith ddwy flynedd yn ôl ac roedd y perchnogion wedi eu dosbarthu mewn pentref cyfagos i drigolion o dras San. Hydref diwethaf aethom draw unwaith eto gyda phecyn o ddillad a dderbyniasom gan drigolion lleol yn Ardudwy.

Daeth Meisie atom gyda'r pecyn ac roedd wedi cynhyrfu'n lân. Gwelodd gôt goch roeddwn wedi ei rhoi yn y pecyn ac roedd eisiau ei gwisgo yn syth. Mae wedi gyrru lluniau o'r plant a'r oedolion sydd wedi derbyn y dilladau oedd yn y pecyn.

Llawer o ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu bob tro i'n tripiau er mwyn cynorthwyo pobl eraill llai ffodus.



Meisie yn chwilota yn y bag!













